# City & Guilds Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant

Mawrth 2026 Fersiwn 2.1

## Pecyn Asesu

| Fersiwn a dyddiad | Manylion newid | Adran |
|---|---|---|
| Mai 2024 (2.0) | Newid i'r gofynion asesu ar gyfer,<br>Tasgau B(i) a C(i)<br>Asesiad Newydd C(ii) | Tasgau B(i) a B(ii), a'r holl ganllawiau a meini prawf marcio cysylltiedig |
| | Tasg ail-rifo C(ii) i C(iii) | Task C(iii) |
| | Canllawiau diwygiedig wedi'u hychwanegu ar:<br>- Cyfrif geiriau<br>- Defnyddio AI (Deallusrwydd Artiffisial) | Gwybodaeth gyffredinol i ymgeiswyr |
| | Canllawiau diwygiedig wedi'u hychwanegu ar:<br>• Cyfleoedd i ailadrodd tasgau<br>• Cysylltbwyntiau aseswyr allanol<br>• Proses ailgyflwyno<br>• Canllawiau tasg – Tasg C(ii) | Cyflwyniad i asesiadau ar gyfer tiwtoriaid/aseswyr mewnol |
| | Canllawiau i aseswyr allanol<br>Atodiad 5, 9, 11 | Canllawiau i aseswyr allanol<br><br>Atodiad 5, 9, 11 |
| Mawrth 2026 (2.1) | Cyfleoedd i ailadrodd tasgau -<br>Canllawiau Tasg B | Cyfleoedd i ailadrodd tasgau |

# Cynnwys

City & Guilds Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant 1

**Cynnwys 3**

**1 Trosolwg asesu 4**

**2 Canllawiau i ymgeiswyr 6**

**3 Cyflwyniad i asesiadau ar gyfer tiwtoriaid/aseswyr mewnol 17**

**4 Canllawiau i aseswyr allanol 38**

**Atodiad 1 Meini prawf marcio 43**

**Atodiad 2 Tablau disgrifyddion graddio 46**

**Atodiad 3 Ffurflen gofnodi'r aseswr mewnol 51**

**Atodiad 4 Ffurflen crynhoi graddio yr aseswr mewnol 54**

**Atodiad 5 Ffurflen cofnodi asesiadau allanol 56**

**Atodiad 6 Ffurflen cymeradwyo project 60**

**Atodiad 7 Ffurflen cofnodi arsylwadau (aseswr mewnol) 63**

**Atodiad 8 Ffurflen adborth (Aseswr mewnol) 64**

**Atodiad 9 Ffurflen Adborth y Ganolfan (Aseswr allanol) 65**

**Atodiad 10 Datganiad 66**

**Atodiad 11 Sgript Cyfarfod Cynllunio (Aseswr allanol) 67**

# 1 Trosolwg asesu

## Dull asesu

Caiff cymhwyster Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant ei asesu drwy'r asesiadau canlynol.

- portffolio o dystiolaeth (Tasg A)
- project, sy'n cynnwys cyfres o dasgau ysgrifenedig, arsylwi ar ymarfer yn uniongyrchol a thrafodaeth broffesiynol (Tasgau B-Ch)

Ceir dadansoddiad manwl o'r tasgau hyn isod.

**Tasg A – portffolio o dystiolaeth**

Asesir y portffolio o dystiolaeth yn fewnol ar y cyd â Thasg CH; rhoddir barn gyfannol derfynol ac anfonir y canlyniad i City & Guilds.

**Tasg B** – mae'r tasgau hyn yn ymwneud ag ymarfer plentyn-ganolog ac maent yn rhan o'r agwedd baratoadol ar y project. Mae Tasg B yn cynnwys y canlynol:

**Tasg B(i)** – llunio **dogfen wybodaeth**

**Tasg B(ii)** – cymhwyso dealltwriaeth o **ddamcaniaethau a modelau** i gefnogi datblygiad cyfannol plentyn

Asesir y tasgau hyn yn allanol gan y corff dyfarnu.

***Tasg C*** – bydd y tasgau ysgrifenedig hyn yn creu sail o werthuso a gwaith ymchwil cefndirol ar gyfer y project yn Nhasg Ch. Mae Tasg C yn cynnwys y canlynol:

Tasg C(i) - Adroddiad ar newid i ymarfer
**Tasg C(ii)** - Cyflwyno adroddiad ar newid i ymarfer, a thrafodaeth
Asesir y dasg hon yn allanol gan y corff dyfarnu.

**Tasg C(iii)** – datblygu **adroddiad ymchwil** yn seiliedig ar sgiliau astudio'r ymgeisydd

Asesir y dasg hon yn fewnol gan y ganolfan, a chyflwynir y canlyniad i City & Guilds.

***Tasg Ch*** – elfennau ymarfer y **project** sy'n ymwneud ag ymarfer yr ymgeisydd ei hun, sy'n rhoi cynllun ar waith er mwyn cynnal a chefnogi canlyniadau cadarnhaol i blant yn ei weithle/lleoliad.

**Tasg Ch(i)** – **cynllun project**

**Tasg Ch(ii)** – rhoi cynllun y project ar waith, a asesir drwy gwblhau **log myfyriol** a thrwy **arsylwi ar ymarfer yn uniongyrchol**

**Tasg Ch(iii)** – gwerthuso gweithgareddau drwy **drafodaeth broffesiynol**

Asesir y tasgau yn adran (Ch) eu hasesu'n fewnol ar y cyd â'r portffolio (Tasg A); rhoddir barn gyfannol derfynol ac anfonir y canlyniad i City & Guilds.

# 2 Canllawiau i ymgeiswyr

## Trosolwg Asesu

Mae'r cymhwyster hwn wedi cael ei ddatblygu a'i ddylunio er mwyn eich galluogi i ddangos eich gallu i gefnogi a chyflwyno'r ymarfer gorau mewn maes llwybr o'ch dewis. Bydd cwblhau'r cymhwyster hwn yn eich galluogi i ddatblygu, cyflwyno a chynnal ymarfer sy'n cefnogi canlyniadau cadarnhaol plant yn eich gweithle/lleoliad.

Mae'r asesiad hwn yn cynnwys nifer o weithgareddau. Nod y rhain yw asesu eich gallu i ddangos y wybodaeth a'r ddealltwriaeth y mae eu hangen ar gyfer eich rôl, ynghyd â'r sgiliau a'r cymwyseddau ymarferol sydd eu hangen i gefnogi ymarfer gwell.

Fel rhan o'r gweithgareddau hyn, gofynnir i chi ystyried ymarfer yn eich gweithle/lleoliad eich hun, a meddwl am sut y gallwch chi ddylanwadu'n gadarnhaol ar ganlyniadau i blant. Fel rhan o hyn, bydd yn rhaid i chi wneud y canlynol:

- Gwerthuso ymarfer yng nghyd-destun y llwybr o'ch dewis; nodi maes ffocws i gefnogi canlyniadau cadarnhaol i blant. (Tasg Ci-Cii)
- Defnyddio sgiliau astudio i ystyried dulliau posibl o gefnogi canlyniadau cadarnhaol o'r sector gofal plant ehangach. (Tasg Ciii)
- Gan ddefnyddio'r canfyddiadau o'ch gwaith ymchwil, datblygu cynllun yn nodi sut y byddwch chi'n gwella ac yn datblygu ymarfer yn eich gweithle/lleoliad eich hun. (Tasg Chi)
- Drwy eich ymarfer eich hun, rhoi eich cynllun ar waith er mwyn cefnogi canlyniadau cadarnhaol i blant yn eich gweithle/lleoliad. (Tasg Chii)

Caiff yr asesiad ymarfer ei ategu gan weithgareddau pellach â'r nod o ddangos eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth sy'n adlewyrchu eich ymarfer. Bydd yn rhaid i chi wneud y canlynol:

- Dangos eich dealltwriaeth o'r egwyddorion sy'n ymwneud ag arwain ymarfer plentyn-ganolog drwy nifer o **dasgau ysgrifenedig** (Tasg B).
- Cyflwyno gwerthusiad terfynol o'ch gweithgareddau drwy **drafodaeth broffesiynol** (Tasg Chiii)

Bydd **portffolio o dystiolaeth** (Tasg A) yn cael ei ddefnyddio i gasglu tystiolaeth asesu ar gyfer deilliannau dysgu lle na fydd cyfleoedd ymarferol yn cael eu cyflwyno o bosibl drwy'r project.

*(*)* ***Noder.*** *Fel rhan o'r asesiadau hyn, mae angen i chi ystyried maes ffocws a'r ffordd orau o ddylanwadu ar ymarfer yn eich gweithle/lleoliad. Efallai y bydd eich ffocws yn ymwneud ag ystyried newid bach yn eich gweithle/lleoliad a'i roi ar waith; efallai y bydd yn ymwneud ag ystyried newid ehangach a sut rydych chi'n mynd ati i wneud hyn, neu efallai y bydd yn ymwneud â sut rydych chi'n cynnal ac yn datblygu ymarfer cadarnhaol er mwyn cefnogi canlyniadau cadarnhaol i blant ymhellach.*

## Gwybodaeth gyffredinol i ymgeiswyr

**Cyflwyniad i'r tasgau**
Pan fydd y tasgau yn cyfeirio at 'y llwybr o'ch dewis', sylwer bod hyn yn ymwneud â'r maes arbenigedd rydych chi wedi canolbwyntio arno fel rhan o'ch rhaglen ddysgu. Bydd hyn yn ymwneud ag un o'r canlynol:

a) Gweithio gyda theuluoedd a gofalwyr i ddatblygu sgiliau rhianta
b) Gweithio gyda Phlant ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLCN)
c) Adnabod a chefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

**Cyflwyno tystiolaeth**
Ar gyfer Tasgau B ac C lle mae angen ymatebion ysgrifenedig. Dylid cyflwyno ymatebion ysgrifenedig ar ffurf electronig, wedi'u teipio. Dylech sicrhau bod eich gwaith wedi'i gyflwyno mewn ffordd daclus, h.y. dylid defnyddio ffont safonol mewn maint y gellir ei ddarllen (fel Times New Roman, neu ffont cyfatebol, maint 12) a gofod dwbl a dylid sicrhau bod digon o le ar ymyl y dudalen.

**Cyfrif geiriau**
Dylid defnyddio cyfrifon geiriau nodweddiadol, lle nodir nhw, fel canllawiau bras i helpu i gynhyrchu tystiolaeth ddigonol. Bydd y marcio'n ymwneud ag ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchir ac nid a yw'r cyfrif geiriau wedi'i fodloni. Mae arweiniad ar gyfer cyfri amcangyfrif nifer y geiriau yn ôl y geiriau sy'n llunio'r ymateb ac nid yw'n cynnwys unrhyw gyfeiriadau at ffynonellau allanol.

**Defnyddio adnoddau allanol a chyfeirnodi**
Lle y bo'n berthnasol, caniateir i chi ddefnyddio adnoddau allanol a chyfeirio atynt yn ystod y tasgau asesu. Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi nodi unrhyw ffynonellau allanol rydych chi wedi'u defnyddio fel rhan o'ch ymateb a'u cyfeirnodi yn glir. Mae'r adran ***'Beth mae'n rhaid i chi ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad'*** o bob tasg yn nodi'n glir lle y bydd yn rhaid darparu rhestr gyfeirio os ydych wedi defnyddio unrhyw adnoddau allanol fel rhan o'ch ymateb i'r dasg. **Sylwer**, does dim fformat wedi'i ddiffinio ar gyfer darparu'r rhestr gyfeirio – ond rhaid cyfeirio'n glir ar unwaith at unrhyw ffynonellau allanol a ddefnyddir.

**Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (DA)**
Dylid cynghori ymgeiswyr hefyd **na** chaniateir defnyddio offer deallusrwydd artiffisial (AI) fel Chat GPT i ddatblygu tystiolaeth asesu. Rhaid eu hatgoffa mai pwrpas yr asesiad hwn yw adlewyrchu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau eu hunain. Byddai defnyddio deallusrwydd artiffisial fel Chat GPT yn cael ei ystyried yn ffurf annerbyniol o lên-ladrad ac mae'n fath o gamymddwyn y dylid rhoi gwybod i City & Guilds amdano. Os amheuir defnyddio AI, bydd hyn yn sbarduno ymchwiliad oherwydd amheuaeth o lên-ladrad, naill ai gan y ganolfan neu gan City & Guilds – ac mae'n bosibl y gallai hynny arwain at gosbau i ddysgwyr.

**Cyfrinachedd**
Bydd angen i chi fodloni gofynion cyfrinachedd a chydsynio eich sefydliad/lleoliad bob amser wrth gwblhau'r tasgau asesu. Rhaid i'r holl dystiolaeth rydych chi'n ei chyflwyno fodloni gofynion cyfrinachedd a chydsynio eich sefydliad/lleoliad. Mae'n rhaid i chi hefyd sicrhau eich

bod yn gweithio mewn ffyrdd sy'n cydymffurfio ag ystyriaethau diogelu yn eich amgylchedd gwaith ar bob adeg, a bod yn ymwybodol o hyn.

## Trosolwg asesu

*At bwrpas yr asesiad hwn, gofynnir i chi ystyried* ymarfer yn eich gweithle/lleoliad eich hun, a meddwl am sut y gallwch chi ddylanwadu'n gadarnhaol ar ganlyniadau i blant. *Fel rhan o'ch asesiad, bydd angen i chi ystyried yr holl feysydd dysgu a gwblhawyd gennych fel rhan o'ch rhaglen ddysgu. Hefyd, bydd angen i chi sicrhau bod y maes ffocws a nodwyd yn un lle byddwch chi, yn realistig, yn gallu dylanwadu ar ymarfer, gyda'r nod o gefnogi canlyniadau cadarnhaol i blant.*

**TASG A**

Mae angen i chi gadw portffolio o dystiolaeth drwy gydol eich cyfnod asesu. Nod y portffolio yw casglu tystiolaeth ar gyfer canlyniadau na fyddent yn cael eu gweld yn uniongyrchol drwy eich tasgau na thrwy'r project. Gallwch chi hefyd ddefnyddio'r portffolio i ddarparu unrhyw enghreifftiau 'penodol' o dystiolaeth sy'n nodi cyflawniadau a gweithgareddau allweddol a gyflawnwyd fel rhan o'ch ymarfer yn ystod y cyfnod asesu.

Gofynnir i chi gyflwyno eich portffolio, a bydd gofyn i chi ateb cwestiynau am gynnwys eich portffolio yn ystod y drafodaeth broffesiynol yn Nhasg Ch.

Bydd eich aseswr mewnol yn eich helpu i sicrhau eich bod yn dewis y dystiolaeth fwyaf perthnasol o'ch portffolio.

***Amodau asesu***

Amodau arferol y gweithle

***Beth mae'n rhaid i chi ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad***

- Portffolio o dystiolaeth – a allai gynnwys – arsylwadau ar ymarfer; ac a all gynnwys – dogfennaeth/cynhyrchion o'r gweithle, tystiolaeth tystion, ymatebion i gwestiynau, myfyrdodau, astudiaethau achos ategol

**TASG B**
*Ar gyfer Tasg B, mae'n rhaid i chi gwblhau dwy dasg sy'n dangos eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth mewn perthynas ag egwyddorion sy'n ymwneud ag arwain ymarfer plentyn-ganolog, gan gynnwys dealltwriaeth o ddatblygiad plant.*

**Tasg B(i)**
Lluniwch ddogfen wybodaeth ar gyfer gweithwyr yn eich gweithle/lleoliad sy'n eu cyflwyno i bob un o'r canlynol:

- fframweithiau deddfwriaethol a fframweithiau rheoleiddio y mae eich gweithle/lleoliad yn eu dilyn
- cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Polisïau, canllawiau a safonau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Gymraeg
- deddfwriaeth sy'n ymwneud ag atal ac ymyrryd yn gynnar
- deddfwriaeth a Chanllawiau Cenedlaethol yn ymwneud â diogelu

Dylai'r ddogfen wybodaeth gynnwys ble y gall gweithwyr ddod o hyd i ragor o wybodaeth a deunydd darllen a all gynnwys cyfeiriadau at bolisïau a gweithdrefnau cyfredol y gweithle/lleoliad.

Pwrpas y ddogfen wybodaeth yw helpu gweithwyr eraill i ddeall pwysigrwydd y fframweithiau hyn i'w rôl ac i'r gweithle/lleoliad. Bydd yn dechrau llywio eu dealltwriaeth o'r ffordd y mae'r fframweithiau hyn yn dylanwadu'n gryf ar ddarpariaeth, diogelwch a chyfranogiad yn y gweithle/lleoliad. Bwriedir i'r ddogfen greu sylfaen o wybodaeth ar gyfer gweithwyr eraill a fydd yn defnyddio'r adnodd hwn wrth iddynt ddatblygu ymarfer a gwella ymarfer gofal plant yn y gweithle/lleoliad.

Rhaid cyflwyno'r ddogfen wybodaeth fel a ganlyn:

- Dogfen ganllaw ffurfiol sy'n cynnwys adrannau wedi'u diffinio'n glir a phenawdau i gwmpasu'r holl bwyntiau a nodwyd uchod.

Dylai'r ddogfen wybodaeth fod tua **2000** o eiriau i gyd.

***Amodau asesu***
Gweithio'n annibynnol mewn amodau tawel, lle byddwch chi'n cael llonydd

***Beth mae'n rhaid ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad:***

- Dogfen wybodaeth
- Rhestr gyfeirio o unrhyw ymchwil, ffynonellau gwybodaeth neu adnoddau a ddefnyddiwyd neu y cyfeiriwyd atynt

**Tasg B(ii)**
Fel rhan o'ch rhaglen ddysgu, rydych chi wedi ystyried nifer o ddamcaniaethau a modelau biolegol, cymdeithasegol a seicolegol a ddefnyddir i gefnogi datblygiad cyfannol plant a'u taith bywyd.

Disgrifiwch sut y gallwch chi gymhwyso'r damcaniaethau a/neu'r modelau rydych chi wedi dysgu amdanynt i gefnogi datblygiad cyfannol, cadarnhaol plant yn eich gweithle/lleoliad. Mae'n rhaid i'ch ymateb ystyried y canlynol:

- effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod
- mesurau ymyrryd yn gynnar ac atal.

Fel rhan o'ch ymateb, mae'n rhaid i chi gymhwyso dealltwriaeth o ddamcaniaethau/modelau sy'n ymdrin â **phob un** o'r ffactorau canlynol, a'u cyfeirnodi:

- biolegol
- cymdeithasegol
- seicolegol.

Dylai'r ymateb ysgrifenedig fod tua **2000** o eiriau i gyd.

***Amodau asesu***
Gweithio'n annibynnol mewn amodau tawel, lle byddwch chi'n cael llonydd

***Beth mae'n rhaid ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad:***

- Ymateb ysgrifenedig
- Rhestr gyfeirio o unrhyw ymchwil, ffynonellau gwybodaeth neu adnoddau a ddefnyddiwyd neu y cyfeiriwyd atynt

**TASG C**
Gan adeiladu ar dasg B, mae angen i chi gynnig newid i ymarfer yn eich gweithle/lleoliad i wella cefnogaeth i ddatblygiad cyfannol, canlyniadau cadarnhaol a llesiant plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. *Rhaid i'r newid arfaethedig i ymarfer fod o fewn cyd-destun eich llwybr dewisol.*

Ar gyfer y dasg hon, bydd angen i chi wneud y canlynol:
- Cynhyrchu adroddiad sy'n amlinellu newid i ymarfer
- Cyflwyno cyflwyniad ffurfiol o'ch adroddiad i'ch aseswr
- Cael trafodaeth gyda'ch aseswr (ar ôl cyflwyno eich cyflwyniad)
- Mae angen i chi ddefnyddio sgiliau astudio er mwyn ystyried ac ymchwilio i ddulliau posibl o'r sector gofal plant a fydd yn cefnogi canlyniadau cadarnhaol

**Tasg C(i)**

Byddwch chi'n llunio adroddiad sy'n amlinellu newid i ymarfer. Fel rhan o'ch adroddiad, mae'n **rhaid** i chi wneud y canlynol:

- Nodi maes i'w wella
- Llunio cynnig ar gyfer y newidiadau byddai angen eu gwneud
- Amlinellu sut byddech chi'n cynllunio, a'r ystyriaethau cynllunio sydd eu hangen i gyflwyno a gwerthuso'r newidiadau
- Nodi sut mae'r newid yn ymwneud â damcaniaethau a modelau datblygiad plant
- Cynhyrchu tystiolaeth i ategu rhesymeg y newid i ymarfer rydych chi'n ei gynnig gan ystyried Fframweithiau Deddfwriaethol a Rheoleiddio ar gyfer o leiaf **un** o'r canlynol:
    - Dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau
    - Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
    - Y Gymraeg
    - Atal ac ymyrryd yn gynnar
    - Diogelu

Dylech amlinellu'r maes ffocws a nodwyd yn glir yn eich ymateb, gan gyfiawnhau pam eich bod wedi dewis y maes hwn.

Dylai'r adroddiad ysgrifenedig fod tua **2000** o eiriau i gyd.

***Amodau asesu***
Gweithio'n annibynnol mewn amodau tawel, lle byddwch chi'n cael llonydd

***Beth mae'n rhaid ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad:***
- Adroddiad ysgrifenedig
- Rhestr gyfeirio o unrhyw ymchwil, ffynonellau gwybodaeth neu adnoddau a ddefnyddiwyd neu y cyfeiriwyd atynt

***Tystiolaeth ychwanegol:***
- dogfen ganiatâd, lle y bo'n berthnasol, gan randdeiliaid angenrheidiol er mwyn cael mynediad at wybodaeth a/neu ei defnyddio

**Tasg C(ii)**

Mae angen i chi gyflwyno cyflwyniad ffurfiol o'ch adroddiad i'ch aseswr, gan amlinellu ei gynnwys a sail resymegol y newid i ymarfer rydych chi'n ei gynnig.

Gall eich cyflwyniad cael ei gyflwyno mewn unrhyw fformat cyflwyno ffurfiol sydd yn addas – ond dylai adlewyrchu a yw'r asesiad yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb gyda'r aseswr, neu o bell gan ddefnyddio cyfleusterau cynadledda o bell. Bydd eich aseswr yn cadarnhau hwn cyn dechrau'r dasg hon. Dylech ddatblygu a chyflwyno eich cyflwyniad gyda'r bwriad o ennill cefnogaeth am eich newid arfaethedig.

Dylai eich cyflwyniad bara tua **15** munud.

Ar ôl cyflwyno eich cyflwyniad, dylech chi fod yn barod i gael trafodaeth gyda'r aseswr am eich adroddiad a'ch cyflwyniad. Bydd y drafodaeth hon yn para tua **5-10** munud.

***Amodau asesu***
Cyflwyniad a thrafodaeth, mewn amodau lle byddwch chi'n cael llonydd

***Beth mae'n rhaid ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad:***

- Cyflwyniad
- Nodiadau cyflwyno aseswyr
- Nodiadau trafod aseswyr

**Tasg C(iii)**
Mae angen i chi ddefnyddio sgiliau astudio er mwyn ystyried ac ymchwilio i ddulliau posibl o'r sector gofal plant a fydd yn cefnogi canlyniadau cadarnhaol i blant o fewn y maes ffocws a nodwyd yn C(i)-C(ii).

Fel rhan o'ch ymchwil, bydd angen i chi lunio adroddiad sy'n nodi'r canlynol:

- Y dull a ddefnyddiwyd gennych i gynllunio eich ymchwil
- Y dull a ddefnyddiwyd gennych i ymchwilio i syniadau
- Yr adnoddau/technegau a ddefnyddiwyd gennych
- Crynodeb o'ch canfyddiadau, a sut maent yn cefnogi'r maes ffocws a nodwyd yn eich tyb chi
- Casgliad cyffredinol o sut y byddwch chi'n defnyddio eich ymchwil i ddylanwadu ar eich cynllun er mwyn gwella a datblygu ymarfer yn eich gweithle/lleoliad.

Dylai eich adroddiad ymchwil gyfeirnodi'r holl ffynonellau, deunyddiau ac adnoddau a ddefnyddiwyd. Dylid gwneud hyn drwy greu llyfryddiaeth.

Dylai'r adroddiad ysgrifenedig fod tua **1500** o eiriau i gyd.

***Amodau asesu***
Gweithio'n annibynnol mewn amodau tawel, lle byddwch chi'n cael llonydd

***Beth mae'n rhaid ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad:***

- Adroddiad ymchwil
- Llyfryddiaeth o ffynonellau, deunyddiau ac adnoddau a ddefnyddiwyd

**TASG Ch**

*Ar gyfer Tasg Ch, bydd gofyn i chi wella a datblygu ymarfer i gefnogi canlyniadau cadarnhaol i blant yn eich gweithle/lleoliad. Bydd y tasgau yn gofyn i chi ddatblygu cynllun project; rhoi eich cynllun ar waith yn ymarferol a gwerthuso'r canlyniadau. Cynhelir eich gwerthusiad ar ffurf Trafodaeth Broffesiynol â'ch aseswr.*

**Tasg Ch(i)**

Gan adeiladu ar Dasgau B ac C, bydd gofyn i chi ddarparu cynllun project manwl ar gyfer y maes ymarfer y dewisoch ganolbwyntio arno yn Nhasg C(i).

Mae'n rhaid i gynllun eich project nodi sut y byddwch chi'n cynnig datblygu ymarfer, yn rhoi hyn ar waith yn eich maes cyfrifoldeb eich hun ac yn gwerthuso'r canlyniadau, â'r nod o ddefnyddio'r broses weithredu i lywio ac, o bosibl, gefnogi newid ehangach i ymarfer yn y gweithle/lleoliad.

Dylech gynnwys cofnod o'r canlynol:

- Pa welliannau a fwriedir, gan gynnwys sut mae'r rhain yn dylanwadu ar ganlyniadau cadarnhaol i blant, a sut y gallant gefnogi ymyrryd yn gynnar ac atal.
- Sut y gellir annog plant a'u teuluoedd/gofalwyr i gyfranogi a sut y byddai eu hawliau, eu llais a'u dewisiadau yn cael eu cydnabod a sut y gweithredir arnynt.
- Trosolwg o'r ystyriaethau ymarferol ar gyfer y newidiadau rydych am eu gwneud, gan gynnwys llinell amser a chyfiawnhad dros unrhyw adnoddau ychwanegol y gall fod eu hangen arnoch.
- Y broses y byddwch chi'n ei defnyddio i werthuso eich cynllun gweithredu.

Mae gofyn i chi gwrdd â'ch aseswr mewnol a'ch rheolwr/cyflogwr er mwyn trafod eich cynnig cyn dechrau Tasg Ch(ii). Bydd angen i chi drafod eich cynnig a'u cael i gefnogi eich cynllun gweithredu arfaethedig.

Bydd eich aseswr mewnol yn arsylwi ar eich ymarfer yn ystod eich cyfnod gweithredu a bydd yn cadarnhau achlysuron addas, ar y cyd â'ch rheolwr/cyflogwr, ar gyfer arsylwi ar eich ymarfer yn erbyn eich cynllun. Bydd eich aseswr mewnol am arsylwi ar sut rydych chi'n bodloni gofynion penodol y cynnwys gorfodol o ran gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau, ynghyd â chynnwys y maes llwybr o'ch dewis.

***Amodau asesu***

Gweithio'n annibynnol mewn amodau tawel, lle byddwch chi'n cael llonydd

***Beth mae'n rhaid ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad:***

- Cynllun project
- Rhestr gyfeirio o unrhyw ymchwil, ffynonellau gwybodaeth neu adnoddau a ddefnyddiwyd neu y cyfeiriwyd atynt

## Tasg Ch (ii)

Bydd gofyn i chi roi cynllun y project a ddatblygwyd yn Nhasg Ch(i) ar waith yn eich gweithle/lleoliad er mwyn cefnogi canlyniadau cadarnhaol i blant yn eich gweithle/lleoliad.

Bydd angen i chi gadw log myfyriol drwy gydol eich proses ymarfer. Dylai'r log hwn gynnwys manylion am y rôl rydych chi wedi'i chymryd o ran rhoi eich cynllun ar waith, ynghyd â myfyrdodau ar unrhyw newidiadau o ran gweithredu rydych chi wedi'u gwneud, unrhyw heriau rydych chi wedi'u hwynebu a'u goresgyn ac ati.

Cewch eich arsylwi yn ymarfer o leiaf **dwywaith** wrth i chi roi eich cynllun gweithredu ar waith.

***Amodau asesu:***
**Nid** oes angen i'ch log myfyriol gael ei gwblhau o dan amodau goruchwylio ond rhaid iddo ddangos eich myfyrdodau gwirioneddol eich hun ar y broses weithredu (h.y. rhaid ei ysgrifennu yn eich geiriau a'ch arddull eich hun a rhaid iddo fod yn gysylltiedig â'ch ymarfer).

Cynhelir arsylwadau yn y gweithle o dan amodau arferol y gweithle.

***Beth mae'n rhaid ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad:***
- Log myfyriol sy'n cwmpasu'r cyfnod gweithredu
- Ffurflenni cofnodi arsylwadau (Aseswr mewnol)

### Tasg Ch(iii)

## Trafodaeth broffesiynol

Cewch eich gwahodd i gymryd rhan mewn trafodaeth broffesiynol ar ôl cwblhau Tasg Ch(ii).

**Cynnwys a strwythur y drafodaeth broffesiynol**
Bydd y drafodaeth yn seiliedig ar y wybodaeth rydych chi wedi'i darparu fel rhan o'ch asesiadau eraill sydd wedi'u cwblhau. Bydd gofyn i chi werthuso a myfyrio ar eich ymarfer drwy'r cynllun rydych chi wedi'i roi ar waith; gan ystyried sut rydych chi wedi defnyddio gwerthusiadau ac ymchwil i lywio ymarfer ac ystyried pa mor dda, wrth fyfyrio, mae hyn wedi diwallu anghenion ar gyfer cefnogi canlyniadau cadarnhaol i blant yn eich gweithle/lleoliad.

Bydd yr aseswr mewnol yn awyddus i glywed am eich dull o weithio sy'n dangos y safon rydych chi'n ei chyrraedd. Yn ystod y drafodaeth, dylech chi sôn am y canlynol:
- Y wybodaeth a ddarparwyd yn eich tasgau
- Enghreifftiau penodol o brofiadau ac arferion gwaith
- Y wybodaeth a'r ddealltwriaeth rydych chi wedi'u meithrin drwy ymgymryd â'ch rhaglen ddysgu

Mae'r prif bwyntiau trafod wedi'u rhestru isod. Ar gyfer rhai o'r meysydd hyn, efallai y bydd yr aseswr mewnol yn gofyn mwy nag un cwestiwn i chi, neu efallai y bydd yn treulio mwy o amser yn canolbwyntio ar faes penodol. Mae'r aseswr mewnol yn chwilio am dystiolaeth eich bod wedi cymhwyso'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau o'ch dysgu ar y llwybr o'ch dewis ac y gallwch gefnogi datblygiad y sgiliau hyn yn eich gwaith ehangach.

Mae'r aseswr mewnol yn chwilio am dystiolaeth o sut rydych chi'n:
- Cymhwyso'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau o weithio o'r maes llwybr o'ch dewis
- Cymhwyso gwybodaeth am ddamcaniaethau, modelau a dulliau yn y maes llwybr o'ch dewis, ynghyd â dealltwriaeth ohonynt
- Defnyddio meddwl myfyriol a beirniadol yng nghyd-destun y maes llwybr o'ch dewis
- Cymhwyso gwybodaeth am wella gwasanaethau yn y maes llwybr o'ch dewis, ynghyd â dealltwriaeth o hyn
- Ffurfio dadleuon ac yn llunio barn sy'n ymwneud â gwaith yn y maes llwybr o'ch dewis.

Mae'n rhaid i chi ymateb i'r cwestiynau a ofynnir yn y drafodaeth yn annibynnol heb gymorth.

Rhaid i chi fod yn ymwybodol o gyfrinachedd wrth roi enghreifftiau o'r gweithle.

Gallwch ddod â'r ddogfennaeth ganlynol gyda chi er mwyn cyfeirio ati:

- copi o'r holl dasgau, tystiolaeth o'ch project a thystiolaeth eich portffolio
- unrhyw nodiadau paratoi

**Yr amser a ganiateir ar gyfer trafodaeth broffesiynol**
Bydd y drafodaeth yn para tua **45 munud**.

***Amodau asesu***
Trafodaeth broffesiynol, mewn amodau tawel, lle byddwch chi'n cael llonydd

***Beth mae'n rhaid ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad:***
Nodiadau'r aseswr mewnol o'r drafodaeth.

# 3 Cyflwyniad i asesiadau ar gyfer tiwtoriaid/aseswyr mewnol

## Cyflwyniad

Dyluniwyd yr asesiad hwn mewn ffordd sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddefnyddio'r 'pecyn cymorth' o wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau maent wedi'u datblygu yn ystod eu rhaglen ddysgu ar gyfer y cymhwyster hwn er mwyn dangos eu hymarfer proffesiynol mewn maes arbenigedd yn y sector Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.

Mae'r asesiad a gyflwynir yma wedi'i ddatblygu fel bod y tasgau yn gymwys i ymgeiswyr sy'n cwblhau unrhyw un o'r llwybrau yn y cymhwyster hwn. Dylai'r aseswr mewnol sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol o hyn bob amser ac y dylid ymateb i'w tasgau yng nghyd-destun y llwybr o'u dewis.

### Rolau yn y broses

Mae'r aseswr mewnol yn gyfrifol am asesu Tasgau A, C(ii) a Ch gan ddefnyddio'r disgrifyddion graddio a ddarperir yn y pecyn asesu hwn (Atodiad 2).

Bydd yr aseswr mewnol hefyd yn gyfrifol am sicrhau dilysrwydd yr asesiadau ar gyfer Tasgau B(i), B(ii) ac C(i) y mae'n rhaid eu cyflwyno i City & Guilds i'w hasesu'n allanol.

Gall tiwtoriaid fod yn rhan o'r gwaith o ryddhau/pennu tasgau i ymgeiswyr. Fodd bynnag, rôl yr aseswr mewnol yw sicrhau yr ymgymerir â'r asesiadau fel y nodwyd yn y canllawiau hyn, a gwneud y penderfyniad asesu terfynol ar gyfer Tasgau A, C(ii) a Ch.

Oherwydd rôl arwyddocaol y rheolwr/cyflogwr yn y cymhwyster hwn, y mae elfen bwysig o'r asesiad yn cynnwys project yn y gwaith, mae'n ofynnol i'r rheolwr/cyflogwr gael ei gynnwys yn y broses o adolygu cynllun y project, ar ôl i'r ymgeisydd gwblhau Tasg Ch(i). Bydd angen i'r rheolwr/cyflogwr lofnodi'r ffurflen cymeradwyo project (Atodiad 6).

# Cyflwyno'r asesiadau

**Cyflwyno'r asesiad i'r ymgeiswyr**
Datblygwyd y tasgau mewn trefn sy'n adlewyrchu'r model cyflwyno disgwyliedig ar gyfer cynnwys y cymhwyster hwn. Felly, argymhellir y dylid cwblhau'r tasgau mewn trefn. **Sylwer**, gall tystiolaeth ar gyfer y portffolio ddod o unrhyw ran o'r cyfnod dysgu/asesu.

Mae rhyddhau'r asesiad i'r ymgeisydd yn cadarnhau bod yr aseswr mewnol yn hyderus bod yr ymgeisydd wedi ymgymryd â digon o addysgu a dysgu i fod wedi datblygu'r fath ddealltwriaeth a fydd yn ei alluogi i ymateb i'r tasgau.

**Amodau asesu**

Oherwydd natur y tasgau, caniateir i'r tasgau ysgrifenedig – Tasgau B(i-ii) ac C(i-iii) – gael eu cwblhau gan yr ymgeisydd dan amodau tawel lle caiff lonydd, gyda'r ymgeisydd yn gweithio'n annibynnol. Nid oes angen goruchwyliaeth lawn ar gyfer y tasgau, ond mae'n rhaid i'r tiwtor/aseswr mewnol allu cadarnhau dilysrwydd gwaith terfynol ymgeiswyr.

Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd lofnodi'r ffurflen datganiad dilysrwydd (Atodiad 9) i gadarnhau mai ei waith ei hun yw'r gwaith a gyflwynwyd. Mae'r aseswr mewnol yn gyfrifol am nodi unrhyw bryderon o ran y gwaith a gyflwynwyd, ac mae'n rhaid iddo hefyd lofnodi'r ffurflen datganiad sy'n cadarnhau dilysrwydd y gwaith a gyflwynwyd.

**Cwblhau a chyflwyno asesiad**
Dim ond pan fydd y tiwtor/aseswr mewnol yn hyderus bod yr ymgeisydd yn gadarn o ran ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth er mwyn cwblhau'r dasg asesu y dylid rhyddhau'r pecyn asesu hwn i ymgeiswyr. Felly, ni ddylid rhyddhau'r pecyn nes ar ôl i'r ymgeisydd gwblhau'r elfen addysgu lawn sy'n ymwneud ag Uned 405 (arwain ymarfer plentyn-ganolog).

Oherwydd natur y tasgau, caniateir i'r tiwtor/aseswr mewnol ryddhau'r pecyn asesu cyfan i'r ymgeisydd ar ôl cwblhau addysgu Uned 405. Dylid arwain yr ymgeisydd i ddeall yr holl dasgau asesu a strwythur yr asesiad; a darparu eglurder ar y cysylltiadau rhwng tasgau (h.y. bod Tasg B yn darparu sail gyffredinol ar gyfer Tasg C, a bod Tasg C yn darparu sylfaen y dystiolaeth ar gyfer Tasg Ch). Er y gellir rhyddhau'r asesiadau ymlaen llaw, disgwylir y byddai'r ymgeisydd yn gweithio drwy'r tasgau asesu yn y drefn a gyflwynir yn y pecyn asesu.

Dylai'r tiwtor/aseswr mewnol drafod Tasgau B(i-ii), C(i-iii) ac Ch(i) â'r ymgeisydd a chytuno ar amserlen ar gyfer eu cwblhau, gan ystyried ei raglen weithredu a'i allu i ymgymryd â phob un o'r tasgau yn llwyddiannus yn ystod y cyfnod asesu cyffredinol. Dylid gosod dyddiadau cyflwyno ar gyfer tasgau asesu fel **nad** ydynt yn gorgyffwrdd, h.y. dylai'r ymgeisydd gael cyfnod penodol o amser i ymateb i bob tasg. Ar ôl trafod a dod i gytundeb, mae'n rhaid i'r tiwtor/aseswr mewnol ddarparu amserlen arfaethedig i ymgeiswyr ar gyfer cwblhau pob un o'r tasgau, gan nodi dyddiadau cyflwyno clir. Bydd yr ymgeisydd yn cyflwyno'r dasg fel ei waith terfynol, a dylai gael ei asesu gan yr aseswr mewnol yn unol â hynny.

Awgrymir y dylid cadw tabl fel yr un isod (neu dabl tebyg i'r un a gyflwynir isod) ar gyfer pob ymgeisydd; cofnodi dyddiad rhyddhau'r dasg, dyddiad cyflwyno disgwyliedig, a dyddiad derbyn gwirioneddol. Gellir hefyd ddefnyddio'r tabl hwn i gofnodi unrhyw achos o ailgyflwyno sy'n ofynnol, os yw'n berthnasol.

| | Dyddiad dechrau a gytunwyd | Dyddiad cyflwyno disgwyliedig / asesiad | Dyddiad y derbyniwyd y gwaith a gyflwynwyd | Dyddiad ailgyflwyno disgwyliedig (os yw'n berthnasol) | Dyddiad y derbyniwyd yr ailgyflwyniad (os yw'n berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|
| Tasg B(i) | | | | | |
| Tasg B(ii) | | | | | |
| Tasg C(i) | | | | | |
| Tasg C(ii) | | | | | |
| Tasg C(iii) | | | | | |

Ar gyfer Tasgau Ch(ii) a Ch(iii), bydd yr aseswr mewnol yn cytuno ar yr amserlenni ar gyfer cwblhau'r tasgau hyn gyda'r ymgeisydd, ac yn eu cadarnhau ar ôl derbyn ac adolygu cynllun y project (Tasg Ch(i)). Dylid cwblhau elfen broject yr asesiad (Tasg Ch(ii)) o fewn 6 mis i gytuno ar gynllun y project (Tasg Ch(i)). Dylid cynnal y drafodaeth broffesiynol o fewn 3 wythnos i dderbyn tystiolaeth project a phortffolio terfynol yr ymgeisydd.

### Adolygu'r dystiolaeth a'r graddau

Dylai'r aseswr mewnol adolygu'r dystiolaeth a ddarparwyd ar gyfer Tasgau A, C(iii) a Ch.

Mae'r tabl isod yn dangos y berthynas rhwng y tasgau a chynnwys yr uned maent yn ei hasesu.

| **Tasg** | **Rhannau perthnasol o'r uned** |
|---|---|
| Tasg A | Llwybr â ffocws yr ymgeisydd, naill ai:<br>**416** – Gweithio gyda theuluoedd a gofalwyr i ddatblygu sgiliau rhianta<br>Neu<br>**417** – Gweithio gyda phlant ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLCN)<br>Neu<br>**419 –** Adnabod a chefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| Tasg B(i) | **405** – Arwain ymarfer plentyn-ganolog* |
| Tasg B(ii) | |
| Tasg C(i) | |
| Tasg C(ii) | |
| Tasg C(iii) | **415** – Sgiliau Astudio |
| Tasg Ch | Llwybr â ffocws yr ymgeisydd, naill ai:<br>**416** – Gweithio gyda theuluoedd a gofalwyr i ddatblygu sgiliau rhianta<br>Neu<br>**417** – Gweithio gyda Phlant ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLCN)<br>Neu<br>**419 –** Adnabod a chefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol |

** **Sylwer**, o 1 Medi 2024 - bydd uned (405) yn cael ei harchebu gan ddefnyddio cydran (455) ar systemau City & Guilds.*

Dylid asesu'r tasgau yn unol â chynnwys yr uned y maent wedi'u dylunio i'w asesu, fel y nodir yn y tabl hwn.

Ar gyfer Tasg C(iii), bydd yr aseswr mewnol yn defnyddio'r meini prawf marcio (Atodiad 1) ar gyfer y dasg hon er mwyn cadarnhau a ellir dyfarnu gradd llwyddiant ar gyfer yr asesiad.

Ar gyfer cynnwys y llwybr opsiynol (y mae Tasgau A ac Ch yn ymdrin ag ef), bydd yr aseswr mewnol yn defnyddio'r disgrifyddion graddio (Atodiad 2) er mwyn llunio barn gyfannol ar asesiad yr ymgeisydd o gynnwys y llwybr a ddewiswyd, a phennu a ellir dyfarnu gradd llwyddiant. Caiff tystiolaeth o dasgau'r project (Tasg Ch) a'r portffolio (Tasg A) eu hystyried gan yr aseswr mewnol wrth iddo lunio barn asesu derfynol.

**Sylwer:** Disgrifyddion generig yw'r disgrifyddion graddio ac mae'r rhain yn gyffredin i bob llwybr, ac yn mapio nodau ac amcanion pynciol y cymhwyster. Rhaid i ymgeiswyr ddangos tystiolaeth o fodloni'r disgrifyddion hyn yn eu gwaith ar draws tasgau asesu A ac Ch. Mae'r golofn ymdriniaeth â'r cynnwys yn rhoi syniad o ble mae'r disgrifyddion hyn yn mapio orau â'r deilliannau dysgu sy'n rhan o gynnwys y llwybr. (Sylwer, dim ond at gynnwys y llwybr dewisol a asesir y dylai aseswyr mewnol gyfeirio wrth gyfeirio at y golofn ymdriniaeth â'r cynnwys.

Dylai ffurflen gofnodi'r aseswr mewnol (Atodiad 3) gael ei llenwi gan yr aseswr mewnol er mwyn nodi tystiolaeth o'i benderfyniad asesu a'i benderfyniad cyffredinol ar gyfer pob tasg. Dylai'r aseswr mewnol hefyd lenwi ffurflen crynhoi graddio yr aseswr mewnol (Atodiad 4) fel tystiolaeth ategol ar gyfer crynhoi sut y cyflawnwyd pob un o'r amcanion allweddol.

Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd lwyddo ym mhob tasg er mwyn ennill gradd llwyddiant gyffredinol ar gyfer y cymhwyster. Bydd llwyddo yn holl dasgau gofynnol yr uned yn arwain at radd llwyddiant gyffredinol ar lefel yr uned. Dylid cyflwyno graddau uned i Ardd Furiog City & Guilds.

Mae'r tabl isod yn nodi'r hyn y mae angen ei gyflawni ar gyfer pob uned, a sut y bydd canlyniadau'n cael eu cyflwyno.

| Uned | **Yr hyn y mae angen ei wneud i gyflawni'r uned** | **Cyflwyno canlyniad** |
|---|---|---|
| **405** – Arwain ymarfer plentyn-ganolog | Canolfan i gyflwyno asesiad wedi'i gwblhau i City & Guilds.<br><br>City & Guilds sy'n gyfrifol am farcio'r tasgau, gan ddefnyddio'r meini prawf marcio. Bydd un radd uned ei chyflwyno ar ran yr ymgeisydd wedi iddo gwblhau'r tair tasg yn llwyddiannus.<br><br>Cwblhau Tasgau B(i), B(ii), C(i) ac C(ii) yn llwyddiannus. | Gradd llwyddiant wedi'i chadarnhau a'i chyflwyno i City & Guilds. |

| | | |
|---|---|---|
| **415 –** Sgiliau Astudio | Bydd y Ganolfan yn marcio Tasg C(iii) gan ddefnyddio'r meini prawf marcio.<br><br>Cwblhau Tasg C(iii) yn llwyddiannus. | Gradd llwyddiant wedi'i chadarnhau a'i chyflwyno i'r Ardd Furiog gan y ganolfan |
| **416 –** Gweithio gyda theuluoedd a gofalwyr i ddatblygu sgiliau rhianta | Y ganolfan yn darparu barn asesu gyfannol gan ddefnyddio'r disgrifyddion graddio i werthuso'r dystiolaeth a ddarparwyd yn Nhasgau A/Ch.<br><br>Cwblhau Tasgau A ac Ch yn llwyddiannus. | Gradd llwyddiant wedi'i chadarnhau a'i chyflwyno i'r Ardd Furiog gan y ganolfan. |
| **417 –** Gweithio gyda phlant ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLCN) | Y ganolfan yn darparu barn asesu gyfannol gan ddefnyddio'r disgrifyddion graddio i werthuso'r dystiolaeth a ddarparwyd yn Nhasgau A/Ch.<br><br>Cwblhau Tasgau A ac Ch yn llwyddiannus. | Gradd llwyddiant wedi'i chadarnhau a'i chyflwyno i'r Ardd Furiog gan y ganolfan. |
| **419** – Adnabod a chefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol | Y ganolfan yn darparu barn asesu gyfannol gan ddefnyddio'r disgrifyddion graddio i werthuso'r dystiolaeth a ddarparwyd yn Nhasgau A/Ch.<br><br>Cwblhau Tasgau A ac Ch yn llwyddiannus. | Gradd llwyddiant wedi'i chadarnhau a'i chyflwyno i'r Ardd Furiog gan y ganolfan. |

**Sicrhau Ansawdd Mewnol**

Cyn cyflwyno'r deilliannau asesu i City & Guilds, rhaid i Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol (SSAM) sicrhau ansawdd yr holl dystiolaeth asesu. Dylai SSAM ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd gan aseswyr mewnol i lywio eu barn ynghylch yr asesiad cyfannol. Bydd hyn yn cynnwys adolygu sut y ffurfiodd yr aseswr mewnol ei ddyfarniad yn erbyn y disgrifyddion graddio a dylai gadarnhau bod y dystiolaeth a ddarparwyd ar gyfer y dyfarniad hwn wedi'i chyfeirio'n ddiogel ac yn gywir o fewn ffurflen gofnodi'r aseswr mewnol (Atodiad 3) a ffurflen crynhoi graddio yr aseswr mewnol (Atodiad 4) yn erbyn y dystiolaeth a gwblhawyd gan yr ymgeiswyr ar gyfer y dasg.

**Paratoi a chyflwyno tystiolaeth i'w hasesu'n allanol**

Bydd yr ymatebion asesu ar gyfer Tasgau B(i), B(ii) a C(i) yn cael eu cyflwyno i'w hasesu'n allanol gan yr aseswr mewnol ar ôl eu cwblhau. Mae'n rhaid cyflwyno deunyddiau ymgeiswyr ar gyfer yr asesiadau hyn gyda'i gilydd ar ôl i bob un o'r tair tasg gael eu cwblhau. Dylid cyflwyno'r rhain o leiaf dair wythnos cyn y dyddiad a drefnwyd ar gyfer y cyflwyniad (Tasg C(ii)).

Dylai'r aseswr mewnol sicrhau bod y ffurflen datganiad dilysrwydd (Atodiad 10) wedi'i llenwi gan yr ymgeisydd a'r aseswr mewnol a'i chyflwyno gyda'r deunyddiau asesu ar gyfer y tasgau.

Rhaid i dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno i'w hasesu gael ei chyflwyno fel a ganlyn:

1. Rhaid i'r dystiolaeth gynnwys pennawd ar bob tudalen yn cynnwys enw a llofnod/e-lofnod[1] yr ymgeisydd ynghyd â'r dyddiad y cafodd y dystiolaeth ei chynhyrchu.
2. Rhaid cyfeirio pob darn o dystiolaeth at y dasg y mae'n cyfateb iddi.

[1] *Pan fydd ymgeiswyr yn cyflwyno tystiolaeth drwy e-bost sy'n cynnwys datganiad o ddilysrwydd y gwaith sy'n cael ei gyflwyno, does dim angen llofnod.*

Bydd City & Guilds yn cadarnhau canlyniadau ymgeiswyr o fewn **30** diwrnod gwaith ar ôl derbyn yr holl dasgau a asesir yn allanol a chwblhau'r cyflwynaid/trafodaeth ar gyfer Tasg C(ii).

**Cyfleoedd i ailadrodd tasgau**

Bydd ymgeiswyr sy'n methu â bodloni'r meini prawf gofynnol i lwyddo mewn unrhyw dasg asesu yn cael cyfle pellach i ymgymryd â'r dasg.

Defnyddir y derminoleg ganlynol i gyfeirio at sut gall ymgeisydd gael cyfleoedd o'r fath,

- **Ailgymryd** – caniateir i'r ymgeisydd ailgyflwyno fersiwn wedi'i ailweithio o'u tystiolaeth wreiddiol ar ôl derbyn gradd methu yn y lle cyntaf
- **Ailsefyll –** mae'n ofynnol i'r ymgeisydd ailsefyll yr asesiad yn llawn, gan ddefnyddio'r canllawiau fel y nodir yn y tabl isod.

**Tasgau a asesir yn allanol**

Ar gyfer tasgau a asesir yn allanol (Tasgau B(i), B(ii), C(i) o C(ii)), darperir adborth lefel uchel gan yr aseswr allanol i'r tiwtor/aseswr mewnol, a dylid defnyddio'r adborth hwnnw i ategu unrhyw weithgarwch ychwanegol y mae angen ei gynnal er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth yr ymgeisydd cyn ailsefyll y dasg/tasgau.
Mae ffurflen adborth wedi'i darparu at y pwrpas hwn (Atodiad 8).

Pan fydd rhaid i ymgeisydd ailgymryd neu ailsefyll tasg, rhaid i'r aseswr ddarparu llwybr archwilio clir sy'n dangos sut cafodd yr ymgeisydd adborth, a pha gamau unioni gafodd eu cymryd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu unrhyw ddiffygion o ran gwybodaeth a dealltwriaeth yr ymgeisydd.
**Sylwer,** lle mae ymgeisydd wedi methu â chyflawni'r asesiad a bod angen ailgymryd/ailsefyll, **ni** ddylid rhoi adborth sy'n cyfarwyddo'r ymgeisydd yn benodol ynghylch sut i wella ei waith, ond gellir tynnu sylw at agweddau ar y dasg neu'r meini prawf llwyddo allai fod wedi'u hanwybyddu.

Mae'r tabl isod yn rhoi arweiniad ynghylch sut dylid rheoli cyfleoedd pellach i ailadrodd y tasgau unigol yn yr asesiad hwn.

| | |
|---|---|
| Tasg B(i) | Caniateir i'r ymgeisydd **ailgymryd** y dasg **unwaith**.<br>Os yw'r ymgeisydd yn methu â chyflawni gradd llwyddo ar ôl yr ymgais arall hon, bydd angen iddo **ailsefyll** y dasg yn llawn. |
| Tasg B(ii) | Caniateir i'r ymgeisydd **ailgymryd** y dasg **unwaith**.<br>Os yw'r ymgeisydd yn methu â chyflawni gradd llwyddo ar ôl yr ymgais arall hon, bydd angen iddo **ailsefyll** y dasg yn llawn. |
| Tasg C(i) and (ii) | Caniateir i'r ymgeisydd **ailgymryd** tasg C **unwaith** gan ddefnyddio yr un newid arfaethedig i ymarfer.<br>**Rhaid** i'r ymgais ailsefyll gynnwys cyflwyniad a thrafodaeth bellach (Cii).<br>**Nodwch**, er mwyn sicrhau'r cyfle gorau am lwyddiant yn ystod ymgais ailsefyll, dylai'r dysgwr ddefnyddio'r adborth a ddarparwyd i adolygu a newid eu hadroddiad (Ci) **a'u** cyflwyniad fel y gallent fod yn hyderus i'r meysydd cafodd eu hepgor yn ystod eu hymdrech gyntaf wedi'u paratoi'n dda cyn ailsefyll eu cyflwyniad a'u trafodaeth.<br><br>Os yw'r ymgeisydd yn methu â chyflawni gradd llwyddo ar ôl yr ymgais arall hon, bydd angen iddo **ailsefyll** y dasg yn llawn. Wrth ailsefyll y dasg, bydd angen i'r ymgeisydd gynnig newid gwahanol i ymarfer i ganolbwyntio arno. **Rhaid** i'r ymgais ailsefyll cynnwys adroddiad newydd (Ci) wedi ei gwblhau **a** chyflwyniad a thrafodaeth bellach yn seiliedig ar yr adroddiad newydd (Cii). |

**Tasgau a asesir yn fewnol**
Mae'r tabl isod yn rhoi arweiniad ynghylch sut dylid rheoli cyfleoedd pellach i ailadrodd y tasgau unigol yn yr asesiad hwn.

| | |
|---|---|
| Tasg C(iii) | Caniateir i'r ymgeisydd **ailgymryd** y dasg **unwaith**.<br>Os yw'r ymgeisydd yn methu â chyflawni gradd llwyddo ar ôl yr ymgais arall hon, bydd angen iddo **ailsefyll** y dasg yn llawn. |

**Tasgau A/Ch – Asesiad cyfannol**
Os nad yw'r aseswr mewnol yn gallu dyfarnu marc llwyddo i'r ymgeisydd ar ôl iddo gwblhau Tasgau A/Ch, bydd yn rhoi adborth ar berfformiad cyffredinol yr ymgeisydd, gan dynnu sylw at y meysydd amcan o'r disgrifyddion graddio lle mae angen arsylwi ar fwy o dystiolaeth a'r tasgau asesu lle gellir dangos hyn. Mewn rhai achosion, gall fod angen cyflwyno tystiolaeth ychwanegol drwy'r portffolio. Mewn achosion eithriadol, gall yr aseswr mewnol ofyn i'r ymgeisydd gymryd rhan mewn trafodaeth broffesiynol arall yn dilyn cyfnod pellach o ddysgu a chefnogaeth, er mwyn cadarnhau ei fod wedi gwneud digon o gynnydd i lwyddo a derbyn gradd.

Bydd angen i'r aseswr mewnol ddefnyddio Adran 2 o ffurflen crynhoi graddio yr aseswr mewnol (Atodiad 4) i roi adborth i'r ganolfan a'r ymgeisydd er mwyn cadarnhau'r camau y bydd angen eu cymryd ar gyfer ailgyflwyno. Rhoddir adborth ar lefel uchel er mwyn helpu'r ymgeisydd i ddeall y meysydd amcan lle na roddwyd digon o dystiolaeth o fewn y meini

prawf graddio. Serch hynny, cyfrifoldeb yr ymgeisydd fydd nodi'n union sut i ymateb a darparu tystiolaeth bellach fel y bo angen.

Pan fydd angen i ymgeisydd gyflawni unrhyw dasg eto, neu ddarparu tystiolaeth bellach, bydd angen i'r aseswr mewnol ddarparu llwybr archwilio clir sy'n dangos sut mae adborth wedi'i roi i'r ymgeisydd a'r camau adferol sydd wedi'u cymryd er mwyn helpu i wella unrhyw ddiffygion yng ngwybodaeth a dealltwriaeth yr ymgeisydd.
Mae ffurflen adborth wedi'i darparu at y pwrpas hwn (Atodiad 8).

**Cysylltbwyntiau aseswyr allanol**
Bydd angen i'r aseswr/tiwtor mewnol gysylltu ag aseswr allanol City & Guilds ar yr adegau canlynol yn y broses asesu:

- Trefnu a chymryd rhan mewn cyfarfod cynllunio cychwynnol gyda'r aseswr allanol i drafod gofynion yr asesiad a chytuno ar ddyddiad ar gyfer asesu C(ii)
- Cyflwyno tystiolaeth yr ymgeisydd ar gyfer Tasgau B(i), B(ii) a C(i)
- Cynorthwyo i gynnal yr asesiad ar y dyddiad y cytunwyd arno

**Proses ailgyflwyno**

Os oes angen ailgymryd neu ailsefyll Tasg B, rhaid i'r **ganolfan** ofyn am hyn drwy gysylltu â'r tîm archebu Pro ar welshqualifications@cityandguilds.com.

Unwaith y bydd y dyddiad asesu ailgymryd/ailsefyll wedi'i archebu ar Pro **a'i gadarnhau**, dylid uwchlwytho'r dystiolaeth newydd i'r **adran Cynnydd Asesu yn Pro o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn y dyddiad asesu y cytunwyd arno**. Rhaid i'r dystiolaeth newydd nodi'n glir a yw'r dystiolaeth ar gyfer ailgymryd neu ailsefyll (h.y. ailgymryd – ailgyflwyniad cyntaf; ailsefyll – ail ymgais).

Os **na** ddilynir y broses uchod yn gywir, ni fydd y tîm Pro na'r Aseswr Allanol yn gwybod bod tystiolaeth newydd wedi'i huwchlwytho a gallai hyn olygu na ellir bwrw ymlaen â'r dyddiad asesu.

Sicrhewch fod y dystiolaeth sy'n cael ei hailgyflwyno yn bodloni'r gofynion isod a'i bod hefyd yn dilyn y gofynion cywir o ran fformatio a gweinyddu sydd wedi'u nodi yn y pecyn asesu.

**Cydnabod Dysgu Blaenorol**
Mae City & Guilds yn cydnabod cwblhau Uned 405 (arwain ymarfer plentyn-ganolog) fel rhan o Lefel 4 Paratoi i Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant fel dysgu blaenorol ar gyfer y cymhwyster hwn.

Ni fydd angen i ymgeiswyr sydd wedi cyflawni cymhwyster Lefel 4 Paratoi i Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant ailgwblhau unrhyw asesiad sy'n gysylltiedig ag Uned 405; trosglwyddir a defnyddir y penderfyniad asesu ar gyfer yr uned hon yn y cymhwyster hwn. Fodd bynnag, bydd angen i ymgeiswyr gael eu cefnogi i adolygu a myfyrio ar berthnasedd y maes a nodwyd ac a werthuswyd ganddynt er mwyn cefnogi ymarfer yn eu gweithle/lleoliad (Tasg C(i)-C(ii) yn y cymhwyster hwn).
Os yw gweithle/lleoliad yr ymgeisydd wedi newid, neu os nad yw'r maes a

ddefnyddiwyd fel rhan o'r asesiad ar gyfer cymhwyster Lefel 4 Paratoi i Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant yn berthnasol i'r llwybr presennol, bydd angen i'r ymgeisydd ystyried maes gwahanol fel sail i'w gynllun. Mae'n rhaid i'r aseswr mewnol/tiwtor drafod hyn ag unrhyw ymgeiswyr sydd yn y sefyllfa hon cyn iddynt ddechrau'r tasgau asesu, a chadarnhau lefel y gwaith sy'n ofynnol. **Ni** fydd angen ailgyflwyno nac adolygu'r elfen hon o Dasg C(i)-C(ii) at ddibenion asesu.

## Canllawiau tasg

### Tasg A – Portffolio o dystiolaeth

Pwrpas y portffolio yw:

- Ategu tystiolaeth ar gyfer meysydd canlyniadau o gynnwys gorfodol a/neu opsiynol y llwybr nad yw'n digwydd yn naturiol o bosibl neu nad yw'n bosibl ei gymhwyso efallai drwy'r project, yn seiliedig ar y maes ffocws.
- Rhoi cyfle i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth o gyflawniadau allweddol a gweithgareddau a ddigwyddodd y tu hwnt i'r gweithgareddau asesu allweddol. *

* Mae'n bwysig atgoffa ymgeiswyr bod angen i'r portffolio gael ei ddefnyddio i nodi enghreifftiau amlwg a phenodol o'u hymarfer; ni fwriedir iddo fod yn gyfrwng i drafod yr holl waith y mae ymgeisydd wedi'i wneud yn ystod ei gyfnod dysgu.

**Bydd yr aseswr mewnol yn cefnogi'r ymgeisydd i nodi meysydd y bydd angen darparu tystiolaeth ar eu cyfer drwy'r portffolio. Caiff hyn ei bennu drwy adolygu cynllun y project ar ôl cwblhau Tasg Ch(i).**

**Rhaid i'r aseswr mewnol sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol bod angen cysylltu'n glir unrhyw dystiolaeth a ddarperir yn rhan o'r portffolio â chynnwys y cymhwyster y bwriedir iddo ei asesu.**

Dylai tystiolaeth o'r portffolio gael ei chadw yn unol â gofynion cyfrinachedd a chydsynio'r gweithle/lleoliad, yn ogystal â'r amodau a amlinellir yn y Llawlyfr Gweinyddu *(Cyflwyniad i weithio gyda City & Guilds a CBAC)*.

**Canllawiau ar dystiolaeth dderbyniol ar gyfer portffolio**
Yn ogystal ag arsylwi, dylai aseswyr mewnol nodi cymysgedd priodol o ddulliau asesu eraill o'r rhestr isod, er mwyn helpu i gasglu tystiolaeth ar gyfer meysydd heb eu harsylwi'n llawn drwy'r project, a helpu i ddatblygu portffolio'r ymgeisydd.

Mae'r rhestr isod yn nodi'r amrywiaeth o dystiolaeth sy'n dderbyniol, ond dylai'r ystyriaeth a roddir i'r math o dystiolaeth fod yn bennaf seiliedig ar bwrpas y dystiolaeth, a'i dilysrwydd i ddangos gallu'r ymgeisydd.

- Gall **tystion arbenigol** arsylwi ar ymarfer yr ymgeisydd a darparu tystiolaeth ar gyfer yr ymarfer hwnnw. Gweler y canllawiau pellach yn yr adran isod ar rôl tystiolaeth tystion arbenigol.
- **Tystiolaeth tystion**. Dylai gael ei rhoi gan bobl sy'n gallu darparu tystiolaeth sy'n ategu'r ffordd mae ymgeisydd yn perfformio'n ymarferol. Lle ceisir tystiolaeth gan deuluoedd/gofalwyr a/neu unigolion eraill, dylid sicrhau eu bod yn deall pwrpas y dystiolaeth ac nad ydyn nhw'n teimlo dan unrhyw bwysau i'w rhoi.
- **Cynhyrchion gwaith** – gallant fod yn unrhyw beth perthnasol sydd wedi'i gynhyrchu gan yr ymgeiswyr eu hunain, neu lle maent wedi gwneud cyfraniad sylweddol, sy'n dangos defnydd a chymhwysiad yn eu hymarfer.
- **Cyfrifon/logiau myfyriol / ymgeiswyr** – disgrifir gweithredoedd ymgeiswyr mewn sefyllfaoedd penodol a/neu maent yn myfyrio ar y rhesymau dros ymarfer yn y ffyrdd a ddewiswyd. Tra bydd ymgeiswyr yn cadw log myfyriol drwy gyfnod y project, gall cyfrifon

myfyriol ychwanegol hefyd ddarparu mwy o dystiolaeth y gall ymgeiswyr werthuso eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau ymarferol mewn maes arbenigedd diffiniedig.

• **Cwestiynau** mae aseswyr mewnol yn eu gofyn ac y mae ymgeiswyr yn eu hateb i ategu tystiolaeth a gynhyrchir drwy arsylwadau ac unrhyw fath arall o dystiolaeth a ddefnyddir. Efallai y bydd aseswyr mewnol yn gallu cael peth gwybodaeth a dealltwriaeth o arsylwi ar ymarfer ymgeiswyr. Gallan nhw ofyn cwestiynau i gadarnhau eu dealltwriaeth a/neu gwmpasu unrhyw feysydd sy'n weddill. Gall cwestiynau gael eu gofyn ar lafar neu'n ysgrifenedig ond, yn y ddau achos, rhaid cadw cofnod o'r cwestiynau a'r ymatebion.

• **Astudiaethau achos** – rhaid iddynt fod yn seiliedig ar ymarfer a phrofiadau gwaith go iawn, a bydd angen iddynt gael eu dilysu gan aseswr os ydynt yn cael eu defnyddio fel tystiolaeth o berfformiad cymwys. Byddai ymarferion damcaniaethol neu efelychu ond yn dderbyniol fel tystiolaeth o wybodaeth a dealltwriaeth.

**Ni chaniateir** defnyddio **asesiad ymarferol wedi'i efelychu** fel tystiolaeth ar gyfer y cymhwyster hwn. Gall sefyllfaoedd neu weithgareddau wedi'u hefelychu fod yn ddefnyddiol i ategu gweithgareddau asesu ffurfiannol, ond dylai tystiolaeth ar gyfer asesiad crynodol adlewyrchu'r ymarfer go iawn a wneir gan yr ymgeisydd.

### Defnyddio myfyrio

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gadw log myfyriol wrth gwblhau'r project, sy'n nodi eu gweithgareddau a'u profiadau. Argymhellir cynghori ymgeiswyr ar sut i fanteisio i'r eithaf ar y log hwn fel adnodd myfyriol; nid fel dyddiadur i nodi naratif lefel uchel o ba weithgareddau a gyflawnwyd ganddynt, ond yn hytrach ei ddefnyddio at bwrpasau hunanfyfyrio, dadansoddi beirniadol ac adolygiad manwl o'r hyn a gyflawnwyd ganddynt; beth sydd wedi mynd yn dda, neu ddim cystal, a'u meddyliau a'u teimladau am sut i wella eu hymarfer.

Anogir tiwtoriaid/rheolwyr i ystyried defnyddio arddulliau myfyrio gwahanol gydag ymgeiswyr, gan helpu ymgeiswyr i nodi a defnyddio fformat sy'n adlewyrchu eu harddull dysgu orau ac sy'n eu helpu i wneud cynnydd a datblygu eu myfyrdodau er mwyn gwella eu hymarfer.

### Defnyddio tystiolaeth tystion

Mae tystiolaeth tystion yn dderbyniol yn y portffolio, ond dylai'r defnydd ohoni fodloni'r gofynion a nodir isod.

Bydd angen i'r aseswr mewnol ystyried statws y tyst er mwyn pennu faint o bwys sydd ar ei ddatganiad, a pha dystiolaeth ategol arall allai fod ei hangen er mwyn cadarnhau cymhwysedd.

Gellir barnu statws tystion yn erbyn y meini prawf canlynol:

1. Arbenigwr galwedigaethol sy'n bodloni'r meini prawf penodol ar gyfer rôl Tyst Arbenigol (Gweler yr adran 'Tystion arbenigol' isod);
2. Arbenigwr galwedigaethol ddim yn gyfarwydd â'r safonau;
3. Rhywun nad yw'n arbenigwr yn gyfarwydd â'r safonau;
4. Rhywun nad yw'n arbenigwr ddim yn gyfarwydd â'r safonau.

Yn achos unrhyw dystiolaeth gan dyst sy'n cael ei chynnwys yn y portffolio, dylid nodi'n glir pwy yw'r tyst, a'i statws.

## Tystion arbenigol

Lle defnyddir tystiolaeth gan dystion arbenigol i ddarparu tystiolaeth o gymhwysedd, rhaid i'r dystiolaeth honno fod yn uniongyrchol gysylltiedig â pherfformiad yr ymgeisydd yn y gweithle/lleoliad yr arsylwodd y tyst yn uniongyrchol arni. Rhaid cofnodi unrhyw arsylwadau gan dystion arbenigol, a chadw'r dystiolaeth honno'n rhan o'r portffolio. Mae angen i'r aseswr mewnol ddilysu'r holl arsylwadau gan dystion arbenigol a ddefnyddiwyd yn rhan o'r broses asesu.

Lle maent yn cael eu defnyddio, rhaid i dystion arbenigol fodloni'r meini prawf canlynol:

- yn meddu ar wybodaeth ddigonol am yr unedau y byddan nhw'n rhoi tystiolaeth ar eu cyfer
- yn alwedigaethol gymwys yn eu maes arbenigedd i'r un lefel o leiaf â'r uned y byddan nhw'n rhoi tystiolaeth ar ei chyfer
- yn meddu ar unrhyw gymhwyster asesu perfformiad yn y gweithle neu fod wedi gweithio mewn swydd broffesiynol a oedd yn cynnwys gwerthuso ymarfer bob dydd staff

## Tystion nad ydynt yn arbenigwyr

Tystion yw'r rhain y diffinnir y byddai ganddynt statws 2, 3 neu 4 yn y rhestr uchod. Nid oes angen i dystion nad ydynt yn arbenigwyr feddu ar gymhwyster asesu, oherwydd yr aseswr mewnol fydd yn gwneud y penderfyniad(au) asesu terfynol ynghylch pa mor dderbyniol (dilysrwydd a digonolrwydd) yw'r holl dystiolaeth yn y portffolio.

## Dewis tystiolaeth ar gyfer y portffolio

Cyn dewis y dystiolaeth ar gyfer y portffolio, dylai'r ymgeisydd adolygu'r gofynion asesu er mwyn sicrhau ei fod yn deall y canlynol:

- y deilliant i'w gwmpasu gan y portffolio
- y math o dystiolaeth y gellir ei chyflwyno
- faint o dystiolaeth y mae'n rhaid ei chyflwyno
- y cyfnod y dylai'r dystiolaeth fod yn berthnasol iddo

Er mwyn casglu ei bortffolio ynghyd, dylai'r ymgeisydd ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael i ddangos ei fod wedi bodloni'r gofynion sy'n cael eu hasesu. Y dystiolaeth a gasglwyd tuag at ddiwedd ei raglen, wrth iddo ddod yn fwy annibynnol yn ei waith, sy'n debygol o ddarparu'r dystiolaeth fwyaf cyfannol – h.y. mae'n ymdrin â nifer o ddeilliannau dysgu ar yr un pryd. O'r dystiolaeth hon, dylai ddewis tystiolaeth sy'n bodloni'r holl feini prawf perthnasol yn y **ffordd fwyaf effeithlon** ac yn dangos ei **berfformiad gorau**. Er y gall fod rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y dystiolaeth a gesglir, ni ddylai darnau gwahanol o dystiolaeth sy'n cwmpasu'r un deilliannau dysgu gael eu cyflwyno i'w hasesu fel arfer.

Mae dau gwestiwn y dylai ymgeisydd eu hystyried wrth ddewis gwaith ar gyfer ei bortffolio:

1. *Pa ddarnau sy'n darparu, yn gyfannol (yn fwyaf effeithlon), dystiolaeth sydd, gyda'i gilydd, yn cwmpasu pob un o'r canlyniadau perthnasol?*
2. *Ai dyma'r dystiolaeth **orau** sydd gennyf, sy'n dangos fy mod wedi bodloni pob un o'r deilliannau dysgu.*

## Cadarnhau'r dystiolaeth a ddewiswyd

Pan fydd yr ymgeisydd wedi dewis y dystiolaeth ar gyfer ei bortffolio, rhaid i'r dystiolaeth hon gael ei hadolygu gan yr aseswr mewnol er mwyn sicrhau:

- Bod tystiolaeth o'r holl ofynion asesu ar gyfer y portffolio
- Bod y dystiolaeth yn bodloni unrhyw ofynion sy'n ymwneud â'r math o dystiolaeth sy'n ofynnol a faint o dystiolaeth sy'n ofynnol a'r cyfnod y dylai'r dystiolaeth fod yn berthnasol iddo
- Nad oes unrhyw ddyblygu diangen o ran tystiolaeth yn erbyn yr un meini prawf
- Bod y swm o dystiolaeth a gyflwynir yn y portffolio yn gymesur, ac nad oes unrhyw ddyblygu uniongyrchol o dystiolaeth ar gyfer canlyniadau yr arsylwyd arnynt yn ddigonol drwy'r project
- Mai'r gwaith a ddewiswyd yw'r dystiolaeth orau sydd ar gael o ran y disgrifyddion graddio (Atodiad 2)
- Bod eglurder unrhyw ddelweddau neu dystiolaeth sydd wedi'i sganio yn ddigonol i nodi ansawdd y dystiolaeth wreiddiol
- Bod dilysrwydd y dystiolaeth wedi'i gadarnhau

Dylai'r aseswr mewnol gadarnhau bod y dystiolaeth a gyflwynwyd yn y portffolio yn berthnasol ac wedi'i rhesymoli, Mae'r portffolio wedi'i ddefnyddio i ddangos darnau 'penodol' o gyfnod asesu'r ymgeisydd ac nad oes gormod o ddyblygu o ran tystiolaeth.

## Tasgau B/C(i) – Tasgau ysgrifenedig

Ar gyfer tasgau lle mae angen ymatebion ysgrifenedig gan yr ymgeisydd, mae cyfrifon geiriau bras wedi'u darparu – ond ni ddylid cymhwyso terfyn geiriau at y tasgau hyn.  Bydd ymatebion ysgrifenedig yn cael eu safoni yn seiliedig ar gymhwyso'r meini prawf marcio (Atodiad 1).

## Task C(ii)

Ar gyfer cwblhau tasg C(ii), mae City & Guilds yn caniatáu defnyddio cyflwyno asesiadau o bell.

## Cyflwyno asesiadau o bell

Mae City & Guilds yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r defnydd o gynadledda gwe i gynnal asesiad (cyflwyno asesiadau o bell) lle bo hynny'n briodol. Mae hyn yn golygu nad oes rhaid i'r aseswr allanol a'r ymgeisydd fod yn yr un lleoliad ffisegol pan fydd asesiadau'n digwydd. Mae asesu o bell yn ystyriaeth ar gyfer cynnal y cyflwyniad a'r drafodaeth.

Dylai'r ganolfan drafod yr opsiwn o gyflwyno asesiadau o bell wrth gysylltu â City & Guilds i drefnu dyddiad ar gyfer y cyflwyniad a'r drafodaeth. Os cytunir ar asesiad o bell, y ganolfan fydd yn gyfrifol am sicrhau bod unigolyn penodol yn y ganolfan yn gyfrifol am sicrhau bod mynediad i'r asesiad o bell, ei gydosod a'i gynnal yn bodloni'r amodau canlynol a osodwyd gan City & Guilds. Dylid briffio'r unigolyn hwn ynglŷn â diben yr asesiad, a phwysigrwydd bodloni'r amodau sydd wedi'u hamlinellu isod.

Amodau ar gyfer cyflwyno asesiadau o bell:

- Bydd City & Guilds yn nodi'r dechnoleg o bell sydd i'w defnyddio (fel y cytunwyd ar adeg cadarnhau dyddiad y drafodaeth). Rhaid i'r unigolyn penodedig o'r tu mewn i'r ganolfan wirio a chadarnhau bod hyn yn gydnaws â'u systemau mewnol ac unrhyw furiau gwarchod cyn cynllunio i gyflwyno unrhyw asesiadau o bell.
- Rhaid cynnal asesiadau gan ddefnyddio cyfrifiaduron bwrdd gwaith, gliniaduron neu dabledi yn unig, nid ffonau symudol.
- Rhaid i'r ymgeisydd fod yn y lleoliad dysgu pan fydd yr asesiad yn cael ei gynnal. Fel rheol, byddai'r lleoliad dysgu o fewn amgylchedd dan reolaeth, er y gall fod yn y gweithle os gellir bodloni'r holl amodau a nodir yma.
- Rhaid cynnal yr asesiad mewn ystafell lle bydd yr ymgeisydd yn cael llonydd a lle na fydd dim byd yn tarfu arno yn ystod yr asesiad.
- Yr unigolyn penodol fydd yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:
    - bod yr ymgeisydd yn dod â thystiolaeth ffotograffig o bwy ydyw i'r asesiad. Rhaid i'r aseswr allanol wirio'r dystiolaeth cyn i'r asesiad ddechrau (h.y. bydd angen i'r ymgeisydd ei dangos i'r aseswr allanol ar y cyfleuster cynadledda gwe)
    - bod y dechnoleg sy'n ofynnol er mwyn i'r asesiad ddigwydd wedi ei chydosod ac ar gael i'r ymgeisydd er mwyn i'r asesiad ddechrau
    - bod gwaith yr ymgeisydd yn annibynnol ac nad yw'n cael cymorth.
- Yn ystod yr asesiad ei hun, nid yw'n ofynnol i'r ymgeisydd fod o dan oruchwyliaeth uniongyrchol ar y safle. Yr aseswr allanol fydd y goruchwyliwr yn ystod yr asesiad ei hun.

Wrth gadarnhau trefniadau'r asesiad, bydd City & Guilds yn cael enw a manylion cyswllt yr unigolyn penodol sy'n gyfrifol am gydosod a gwirio trefniadau'r safle ac yn cytuno â nhw sut bydd yr amodau asesu a nodir yma yn cael eu bodloni, cyn i'r drafodaeth ddigwydd. Y ganolfan sy'n gyfrifol am wirio, profi a chadarnhau'r dechnoleg o bell cyn dyddiad/amser yr asesiad fel na fydd unrhyw broblemau technegol yn effeithio ar yr asesiad ei hun.

Rhaid i bob asesiad a gynhelir o bell gael ei gofnodi a'i storio'n electronig gan City & Guilds at ddibenion sicrhau ansawdd.

## Tasg C(iii)

**Sylwer**, ar gyfer y dasg hon, fod y defnydd o'r term 'ymchwil' yn cyfeirio at y ffordd y bydd ymgeiswyr yn defnyddio ffynonellau, deunyddiau ac adnoddau presennol sydd ar gael iddynt, h.y. defnyddio rhestr gyfeirio o chwiliad llenyddol o ymchwil cyhoeddedig.

## Tasg Ch – Project

*Pwrpas y project yw sicrhau bod yr ymgeisydd yn gallu dangos y wybodaeth a'r sgiliau allweddol y mae angen eu cael i arwain, cyflwyno a gwerthuso gwelliant i ymarfer yn ei weithle/lleoliad.*

### Cynllun Project Ch(i) – Adolygu'r newid arfaethedig

Mae'n ofynnol bod yr aseswr mewnol a'r rheolwr/cyflogwr yn adolygu cynllun project yr ymgeisydd (Tasg Ch(i)) cyn i'r ymgeisydd roi ei newid ar waith.

Pwrpas yr adolygiad hwn yw:

- sicrhau bod cynllun y project yn cyd-fynd â'r maes ymarfer gwreiddiol yr ymchwiliodd yr ymgeisydd iddo
- cadarnhau bod y gweithgareddau yng nghynllun y project yn rhoi digon o gyfle i'r ymgeisydd ddangos tystiolaeth o'r sgiliau ymarferol sy'n ofynnol o ran deilliannau dysgu'r cymhwyster
- nodi cyfleoedd penodol yng nghynllun y project i arsylwi ar yr ymgeisydd yn ymarfer, a darparu digon o dystiolaeth o gynnwys uned y llwybr drwy'r ddau arsylwad a asesir yn fewnol
- nodi unrhyw fylchau mawr mewn deilliannau dysgu na fyddent yn cael eu cwmpasu o bosibl gan y gweithgareddau cynlluniedig a gynigir gan yr ymgeisydd, a lle byddai angen cynnwys tystiolaeth yn y portffolio
- sicrhau ymarferoldeb y broses ar gyfer cyflwyno'r cynllun yn y gweithle/lleoliad.

Dylai'r aseswr mewnol ddefnyddio'r ffurflen cymeradwyo project (Atodiad 6) er mwyn nodi ei sylwadau ar y pwyntiau uchod mewn perthynas â chynllun y project a gyflwynir iddo. Yna, mae'n ofynnol iddo roi un o dri ymateb i'r ymgeisydd a chymryd y camau nesaf yn unol â'r tabl isod.

| Penderfyniad | Beth mae hyn yn ei olygu i'r ymgeisydd | Y camau nesaf |
|---|---|---|
| **Project wedi'i gymeradwyo** | Cytunir ar gynllun project yr ymgeisydd, a gall symud ymlaen i Dasg Ch(ii). | Ymgeisydd yn symud ymlaen i Dasg Ch(ii). |
| **Project wedi'i gymeradwyo yn amodol ar ddiwygiadau** | Ystyrir bod cynllun y project yn addas ar y cyfan, ond gall fod angen gwneud rhai diwygiadau. Lle yr awgrymir diwygiadau, rhaid iddynt gael eu nodi a'u rhoi i'r ymgeisydd er mwyn iddo fynd ati i ddiwygio cynllun y project. | Mae'r ymgeisydd yn adolygu ac yn diwygio cynllun y project yn seiliedig ar y diwygiadau a gynigiwyd.<br>Ar ôl cytuno ar gynllun diwygiedig y project, bydd yr ymgeisydd yn symud ymlaen i Dasg Ch(ii). |
| **Project heb ei gymeradwyo** | Ystyrir nad yw'r cyfle yn addas i'r ymgeisydd fwrw ymlaen ag ef. Dylid rhoi sylwadau manwl yn nodi'r rheswm am hyn i'r ymgeisydd. | Rhoddir adborth i'r ymgeisydd a chytunir ar gynllun gweithredu ag amserlen glir ar gyfer ailgyflwyno cynllun y project. |

## Nodi meysydd y mae angen dangos tystiolaeth ohonynt yn y portffolio

Dylai adolygiad o gynllun y project helpu'r aseswr mewnol i nodi unrhyw feysydd deilliannau dysgu na fyddai modd gweld digon o dystiolaeth ohonynt o bosibl drwy'r project. Lle y caiff y meysydd hyn eu nodi, dylai'r aseswr mewnol eu cofnodi ar y ffurflen gynllunio a thynnu sylw'r ymgeisydd atynt fel meysydd lle y bydd angen iddo ddarparu tystiolaeth yn ei bortffolio.

## Tasg Ch(ii) - Arsylwi ar ymarfer

Fel rhan o gytundeb cynllun y project (Tasg Ch(i)), bydd yr aseswr mewnol wedi cadarnhau y bydd y ddau achlysur a gynlluniwyd ar gyfer arsylwi yn cynnig digon o dystiolaeth o'r ymgeisydd yn ymarferol i weld yr ymgeisydd yn cymhwyso ei wybodaeth, ei ddealltwriaeth a'i sgiliau mewn perthynas â chynnwys penodol y llwybr a ddewiswyd ganddo.

Mae'n ofynnol i'r aseswr mewnol arsylwi ar yr ymgeisydd yn rhoi ei broject ar waith o leiaf **dwywaith**. Ar bob achlysur, dylai'r aseswr mewnol ddarparu tystiolaeth o'r ffordd y mae'r ymgeisydd wedi dangos ei fod yn gallu:

> Cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sy'n berthnasol i gynnwys pwnc benodol y maes llwybr a ddewiswyd

Ar gyfer pob arsylwad, dylai'r **Ffurflen Cofnodi Arsylwadau (Aseswr Mewnol) (Atodiad 7)** gael ei chwblhau a'i chyflwyno gyda thystiolaeth yr ymgeisydd.

*Oherwydd pwysigrwydd yr arsylwadau ar ymarfer ar gyfer cefnogi'r farn asesu gyfannol derfynol, dylai'r aseswr mewnol adolygu'r dystiolaeth a gasglwyd ym mhob arsylwad a chadarnhau ei bod yn bodloni disgwyliadau'r hyn yr arsylwyd arno'n ddigonol, fel a bennwyd fel rhan o elfen gynllunio Tasg Ch(i). Os na fydd pob arsylwad yn mynd yn ôl y disgwyl ac nad arsylwir ar dystiolaeth ddisgwyliedig yn y tasgau cychwynnol yr arsylwir arnynt, efallai y bydd angen i'r aseswr mewnol ystyried a oes angen cynnal mwy o arsylwadau. Os teimlir bod angen cynnal mwy o arsylwadau, yna dylai hyn gael ei drafod â'r ymgeisydd a'r rheolwr; dylid amlygu'r rhesymau dros yr asesiad ychwanegol, a chadarnhau'r trefniadau ar gyfer hyn.*

**Tasg Ch(iii) – Trafodaeth Broffesiynol**
Cynhelir y drafodaeth broffesiynol gan yr aseswr mewnol.

Pwrpas y drafodaeth broffesiynol yw:

1. Trafod gwybodaeth a gynhyrchwyd gan broject yr ymgeisydd, yn ogystal â thystiolaeth o'i bortffolio
2. Asesu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau disgwyliedig o gynnwys llwybr cymhwyster Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant

## Paratoi ar gyfer y drafodaeth broffesiynol

Y gweithgaredd asesu terfynol y mae angen i'r ymgeisydd ei gwblhau yw trafodaeth broffesiynol â'r aseswr mewnol. Cynlluniwyd yr elfen hon o'r asesiad i helpu'r ymgeisydd i

werthuso a myfyrio ar ei weithgareddau asesu ac, yn arbennig, sut mae wedi defnyddio ei wybodaeth am ddamcaniaethau, modelau a dulliau, a'i ddealltwriaeth ohonynt, i helpu i roi cynllun ei broject ar waith yn ymarferol.

Dylai'r drafodaeth broffesiynol helpu'r aseswr mewnol hefyd i gadarnhau unrhyw feysydd na welwyd tystiolaeth lawn ohonynt yn y portffolio neu'r project.

### Strwythur yr asesiad

Dylai'r aseswr mewnol adolygu'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd cyn y drafodaeth broffesiynol. Bydd yr aseswr mewnol yn ystyried i ba raddau y mae'r dystiolaeth a gynhyrchwyd o Dasgau A a Thasgau Ch(i) a (ii) yn cefnogi pob un o feysydd yr amcanion allweddol, a bydd yn cynnal dadansoddiad o'r bylchau er mwyn nodi meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt yn y drafodaeth. Mae'r meysydd allweddol hyn yn debygol o ganolbwyntio ar agweddau lle mae'r aseswr mewnol o'r farn bod angen ymhelaethu ar y dystiolaeth a gyflwynwyd, neu lle mae diffyg tystiolaeth ar gyfer amcan penodol.

Bydd yr aseswr mewnol yn defnyddio'r dystiolaeth o Dasgau A ac Ch(i-ii) i gynllunio'r drafodaeth er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei theilwra tuag at yr ymgeisydd a'r gwasanaeth y mae'n gweithio ynddo ac yn nodi meysydd y mae angen eu hystyried ymhellach. Bydd yn galluogi'r aseswr mewnol i ystyried themâu a meysydd pwnc allweddol; a'r mathau o gwestiynau y gellir eu gofyn er mwyn strwythuro'r drafodaeth. Rhaid defnyddio'r ffurflen cofnodi aseswr mewnol (Atodiad 3) i gofnodi'r wybodaeth hon cyn y drafodaeth.

Dylai'r aseswr mewnol sicrhau ei fod yn cefnogi trafodaeth a arweinir gan yr ymgeisydd. Byddai o fudd i'r aseswr mewnol baratoi cyfres o gwestiynau a fydd yn helpu i strwythuro a chefnogi'r drafodaeth broffesiynol. Dylai'r cwestiynau hyn ganolbwyntio ar y canlynol:

- Gwerthusiad yr ymgeisydd o'i weithgareddau, a'i fyfyrdodau yn eu cylch, e.e.
  - Beth ddigwyddodd
  - Beth oedd wedi'i ddisgwyl
  - Beth wnaeth ei synnu, neu na ddigwyddodd yn ôl y bwriad
  - Beth fyddai'n ei wneud yn wahanol y tro nesaf
  - Beth mae wedi'i ddysgu am y ffordd y mae'n gweithio a'i ymarfer mewn perthynas â'r gweithgareddau a gyflawnwyd.
- Gwybodaeth yr ymgeisydd am ddefnyddio damcaniaethau, modelau a dulliau, a'i ddealltwriaeth o'r rhain i gefnogi ymarfer, a archwilir drwy gymryd rhan yn y gweithgareddau asesu. Gallai hyn gael ei ddefnyddio i gefnogi'r drafodaeth gyda chwestiynau fel:
  - Pam roeddech chi'n gwybod hynny?
  - Pam wnaethoch chi ddewis y dull hwnnw?
  - Beth oedd eich ystyriaethau bryd hynny?

Mae Tabl 1 isod yn rhestru'r holl bwyntiau trafod y mae'n rhaid ymdrin â nhw.  Mae pum prif bwynt trafod sy'n gysylltiedig â'r disgrifyddion graddio.  Nod y pwyntiau trafod hyn yw ysgogi ymatebion sydd wedi'u targedu at feysydd penodol o safon ac arferion gwaith y cymhwyster. Mae canolbwyntio ar y meysydd hyn yn helpu i sicrhau ymdriniaeth gyson o gynnwys y cymhwyster ar gyfer pob ymgeisydd.

**Tabl 1**

| Pwyntiau trafod | |
|---|---|
| 1. | Sut mae'r ymgeisydd yn cymhwyso'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau o weithio o'r maes llwybr o'i ddewis |
| 2. | Sut mae'r ymgeisydd yn cymhwyso gwybodaeth am ddamcaniaethau, modelau a dulliau yn y maes llwybr o'i ddewis, ynghyd â dealltwriaeth ohonynt |
| 3. | Sut mae'r ymgeisydd yn defnyddio meddwl myfyriol a beirniadol yng nghyd-destun y maes llwybr o'i ddewis |
| 4. | Sut mae'r ymgeisydd yn cymhwyso dealltwriaeth a gwybodaeth am wella gwasanaethau yn y maes llwybr o'i ddewis |
| 5. | Sut mae'r ymgeisydd yn ffurfio dadleuon ac yn llunio barn sy'n ymwneud â gwaith yn y maes llwybr o'i ddewis |

Er mwyn bodloni gofynion y disgrifyddion graddio (Atodiad 2), rhagwelir yr ymdrinnir â'r holl bwyntiau trafod yn Nhabl 1.

## Cynnal y drafodaeth broffesiynol

### Amgylchedd yr asesiad

Ar ddiwrnod yr asesiad, bydd yr aseswr mewnol yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw asesiad yn cael ei gynnal mewn amgylchedd priodol lle na cheir unrhyw amharu na thorri ar draws. Bydd angen i'r aseswr mewnol sicrhau bod yr amgylchedd wedi'i baratoi'n gywir. Gallai hyn gynnwys sicrhau bod arwyddion priodol a threfniadau eraill ar waith a fydd yn cynnal amgylchedd addas tra bo'r gweithgaredd asesu yn mynd rhagddo.

### Cyflwyno'r drafodaeth broffesiynol

Mae'n bwysig bod yr aseswr mewnol yn gwneud i'r ymgeisydd deimlo'n gyfforddus ar ddechrau'r asesiad a chyn dechrau casglu tystiolaeth. Pwrpas hyn yw gallu cynnal asesiad cywir o'r ffordd mae'r ymgeisydd yn cymhwyso safonau'r cymhwyster drwy leihau'r graddau y gallai ei nerfau effeithio ar ei berfformiad.

Dylai'r aseswr mewnol:

1. Cyflwyno ei hun, esbonio ei rôl yn y broses a gofyn am ganiatâd i recordio'r drafodaeth, os yw'n briodol
2. Crynhoi pwrpas a strwythur yr asesiad
3. Gofyn i'r ymgeisydd pa ddeunydd cyfeirio y mae wedi dod gydag ef i'r drafodaeth
4. Pwysleisio'r ffaith y bydd yr asesiad yn gwbl gyfrinachol
5. Gofyn i'r ymgeisydd a oes ganddo unrhyw gwestiynau cyn i'r asesiad ddechrau

### Yn ystod y drafodaeth broffesiynol

Yn ystod y drafodaeth, dylai'r aseswr mewnol gofnodi pob ymateb ar y ffurflen gofnodi a ddarparwyd (Atodiad 3).

Dylai'r drafodaeth broffesiynol deimlo mor naturiol â phosibl, gan ddefnyddio cwestiynau agored er mwyn galluogi'r ymgeisydd i lywio'r sgwrs. Disgwylir i'r aseswr mewnol ddefnyddio nifer o dechnegau er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn parhau i fod yn effeithiol ac â phwyslais penodol. Gall y rhain gynnwys:

- Defnyddio cwestiynau dilynol lle bo angen er mwyn cael mwy o wybodaeth neu egluro pwyntiau, fel 'Sut roeddech chi'n gwybod hynny?', 'Sut wnaethoch chi ddod i'r casgliad hwnnw?'
- Crynhoi'r pwyntiau a nodwyd er mwyn sicrhau ei fod wedi deall a chofnodi tystiolaeth yr ymgeisydd yn gywir

Rhaid i'r aseswr mewnol ofalu nad yw'n ateb cwestiynau heb feddwl nac yn rhoi awgrymiadau neu gliwiau a all arwain neu gyfeirio ymgeiswyr at ateb penodol neu ateb a luniwyd.

### Amseru

Dylai'r elfen o'r drafodaeth broffesiynol a asesir bara oddeutu 45 munud i gyd.

Ni ddylai'r amser a gymerir ar gyfer cyflwyniadau ac i'r ymgeisydd setlo gyfrif fel rhan o'r amser a asesir, ond ni ddylai bara mwy na 5 munud ychwanegol.

Disgwylir i'r aseswr mewnol reoli amseriadau drwy gydol y drafodaeth, gan hysbysu'r ymgeisydd lle y bo'n briodol.

## Deunyddiau

- Deunyddiau asesu a gwblhawyd gan yr ymgeisydd
- Ffurflen gofnodi'r aseswr mewnol (Atodiad 3)
- Cyfarwyddiadau i'r ymgeisydd ar gyfer Tasg Ch(iii)
- Tabl 1 sy'n nodi'r ymdriniaeth ddisgwyliedig â'r pwyntiau trafod

## Ffurflenni cofnodi

Cyn y drafodaeth broffesiynol, dylai'r aseswr mewnol lenwi ffurflen gofnodi'r aseswr mewnol (Atodiad 3) gyda'r meysydd y bwriedir eu trafod â phob ymgeisydd. Dylai'r aseswr mewnol gadw fersiwn o'r ffurflen a baratowyd; yna, dylid defnyddio'r ffurflen yn ystod y drafodaeth broffesiynol i gofnodi'r ymatebion a roddir gan yr ymgeisydd ac unrhyw bynciau eraill yr ymdrinnir â nhw neu gwestiynau a ofynnir.

Gall yr aseswr mewnol naill ai gwblhau'r ffurflen yn electronig yn ystod y drafodaeth broffesiynol neu argraffu copi caled er mwyn ysgrifennu arno. Os bydd yr aseswr mewnol yn penderfynu argraffu copi caled, efallai y gallai ystyried cynyddu maint y blychau ysgrifennu cyn argraffu'r ffurflen.

## Gofynion gweinyddu asesiadau cyffredinol

**Amseru**
Mae'n rhaid i ymgeiswyr gynllunio eu gwaith a'u gweithgareddau a rhaid i'w cynlluniau gael eu cadarnhau gan diwtor/aseswr mewnol er mwyn sicrhau eu bod yn briodol. Dylai'r tiwtor/aseswr mewnol gytuno ar amserlen o ddyddiadau cyflwyno ar gyfer pob un o'r tasgau pan gânt eu rhyddhau.

**Adnoddau**
Ar gyfer y tasgau asesu sy'n gofyn am ymatebion ysgrifenedig, disgwylir bod gan yr ymgeisydd fynediad i offer TG a'r rhyngrwyd, fel y bo'n briodol er mwyn cwblhau'r tasgau. Disgwylir i ymgeiswyr gynhyrchu ymatebion wedi'u teipio ar gyfer eu gwaith ysgrifenedig. Dylai'r ganolfan sicrhau bod cyfleusterau TG ar gael i ymgeiswyr ar gyfer cwblhau'r tasgau hyn.

Ar gyfer Tasg C(ii), y ganolfan sy'n gyfrifol am gadarnhau gyda'r dysgwr a fydd y cyflwyniad yn cael ei gyflwyno wyneb yn wyneb neu o bell. Beth bynnag y fformat a ddefnyddir, bydd y ganolfan yn gyfrifol am ddarparu amgylchedd a chyfleusterau priodol bydd yn galluogi'r dysgwyr i gyflwyno eu cyflwyniad.

Ar gyfer Tasg Ch(iii), mae'r ganolfan yn gyfrifol am ddarparu amgylchedd a chyfleusterau priodol ar gyfer y drafodaeth broffesiynol.

**Cefnogaeth ac adborth**
Gall tiwtoriaid/aseswyr mewnol roi arweiniad i'r ymgeiswyr o ran y dystiolaeth sy'n ofynnol drwy gefnogi mynediad i'r tasgau. Dylai'r tiwtor/aseswr mewnol sicrhau bod yr ymgeisydd yn deall yr hyn y mae angen iddo ei wneud ac erbyn pryd, a bod angen iddo ychwanegu esboniadau sy'n dangos dealltwriaeth yn ei waith ysgrifenedig. Fodd bynnag, dylid sicrhau nad yw'r ymgeisydd yn cael ei arwain, nac yn cael gwybod beth i'w wneud, mewn ffordd sy'n ei atal rhag gallu dangos ei broses ar gyfer gwneud penderfyniadau a chymhwyso ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth yn annibynnol.

# 4 Canllawiau i aseswyr allanol

**Noder, cynhwysir y canllawiau i aseswyr allanol yn eu pecyn eu hunain – sydd wedi'i gynnwys yma er mwyn sicrhau cyflawnder gwybodaeth – ond ni fyddai'r canllawiau hyn yn cael eu darparu i ganolfannau nac aseswyr mewnol er mwyn atal dryswch o ran y rolau.**

**Cyflwyniad**

Mae aseswyr allanol yn gyfrifol am farcio tasgau B(i), B(ii), C(i) ac C(ii) gan ddefnyddio'r meini prawf marcio yn Atodiad 1.

**Trosolwg o'r asesiad**

Mae angen i'r aseswr allanol gwblhau'r gweithgareddau hyn fel rhan o'r broses asesu:

- Adolygu'r dystiolaeth a gyflwynwyd ar gyfer Tasg B(i) ac B(ii) a marcio yn erbyn y meini prawf marcio (Atodiad 1) – cofnodi'r canlyniad yn y Ffurflen Cofnodi Asesu Allanol (Atodiad 5)
- Cynnal cyfarfod cynllunio. Gweler y sgript a ddarparwyd (Atodiad 11)
- Adolygu'r dystiolaeth a gyflwynwyd ar gyfer Tasg (C(i)) gan ddefnyddio'r meini prawf llwyddo sy'n cael eu darparu
- Paratoi a chynllunio cwestiynau a phwyntiau trafod o ran adroddiad yr ymgeisydd (Tasg C(i)) i'w trafod ar ôl i'r ymgeisydd roi ei gyflwyniad (Tasg C(ii))
- Arsylwi ar y cyflwyniad a chynnal y drafodaeth
- Defnyddio'r meini prawf llwyddo a ddarparwyd i benderfynu ar ddyfarniad cyfannol ar gyfer Tasgau C(i) a C(ii) - – cofnodi'r canlyniad yn y Ffurflen Cofnodi Asesu Allanol (Atodiad 5)
- Cwblhau'r ffurflen adborth gan y ganolfan (Atodiad 9)
- Cyflwyno gradd ar gyfer yr asesiad allanol gan City & Guilds

**Defnyddio rhestri cyfeirio**
Er nad yw'n ofynnol i ymgeiswyr gyfeirio at ffynonellau allanol yn eu gwaith; pan fyddant yn gwneud hynny, mae'n bwysig bod yr aseswr allanol yn gwirio bod y rhain wedi cael eu cyfeirio'n briodol i sicrhau bod y gwaith y gellir ei briodoli i'r ymgeisydd a'r gwaith y gellir ei briodoli i ffynonellau eraill yn glir at ddibenion marcio. Os yw ymgeisydd wedi sôn am ffynonellau allanol, ond heb gyfeirio at y rhain yn briodol – dylid tynnu sylw'r Aseswr Allanol Arweiniol at unrhyw bryder ynghylch dilysrwydd tystiolaeth.

**Cyfarwyddiadau asesu**

**Logisteg**
Pan fydd ymgeisydd yn barod am asesiad Tasg C(ii), bydd y ganolfan yn gofyn am gynnal cyfarfod cynllunio gyda'r aseswr allanol. **Pwrpas y cyfarfod cynllunio yw gwneud y canlynol:**

- Egluro'r dystiolaeth sydd ei hangen cyn yr Asesiad Allanol
- Esbonio sut caiff yr Asesiad Allanol ei gyflwyno
- Cytuno ar ddyddiadau ac amseroedd yr asesiad

Darperir sgript ar gyfer y cyfarfod hwn (Atodiad 11).

Bydd y ganolfan yn darparu tystiolaeth gyflawn yr ymgeisydd ar gyfer Tasg C(i) o leiaf tair wythnos cyn dyddiad arsylwi'r cyflwyniad.

Bydd y ganolfan yn cysylltu â City & Guilds i gadarnhau dyddiad i asesu'r cyflwyniad a'r drafodaeth. Rhaid i'r dyddiad fod o leiaf tair wythnos ar ôl cyflwyno tystiolaeth yr ymgeisydd ar gyfer Tasg C(i). Gellid trefnu i gynnal y gweithgaredd asesu hwn yn y lleoliad neu efallai y byddai'n bosibl trefnu iddo ddigwydd o bell.

## Adolygu tystiolaeth ar gyfer Tasg C(i)

Dylai'r aseswr allanol adolygu'r dystiolaeth a ddarparwyd ar gyfer Tasg C(i) cyn cyflwyniad yr ymgeisydd (Tasg C(ii)) gan ddefnyddio'r meini prawf llwyddo a'r gofynion canlyniadau dysgu ar gyfer Uned 405.

Yn seiliedig ar adolygu adroddiad yr ymgeisydd, dylai'r aseswr nodi sut mae'r ymgeisydd wedi bodloni'r gofynion a amlinellir yn y meini prawf llwyddo, yn enwedig o ystyried sut mae'r ymgeisydd wedi dangos ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth o'r canlynol,

- **Mae'r newid a gynigir yn ymwneud â damcaniaethau a modelau datblygiad plant, a sut mae hyn yn cefnogi datblygiad cyfannol a gwell canlyniadau i blant**
- **Sut mae dealltwriaeth o newid yn cyd-fynd â fframweithiau deddfwriaethol/fframweithiau rheoleiddio**
- **Sut mae defnyddio ystadegau, ymchwil a dogfennau sefydliadol wedi dylanwadu ar eu dewis o newid i ymarfer**
- **Cynllunio i weithredu newid, a sut byddai hyn yn cael ei werthuso**

Dylai'r aseswr nodi sut mae'r dystiolaeth a ddarperir yn yr adroddiad yn bodloni gofynion y meini prawf llwyddo; nodi meysydd lle mae angen rhagor o dystiolaeth, neu lle mae angen eglurder neu ddatblygiad pellach o ran dealltwriaeth. Dylai'r aseswr gofnodi manylion eu harsylwadau yn Adran 2 y ffurflen cofnodi asesiadau allanol (Atodiad 5).

**Sylwer,** ni fyddai ymgeisydd yn gallu bodloni'r gofynion ar gyfer y meini prawf llwyddo drwy gwblhau'r adroddiad yn unig.

## Paratoi am y cyflwyniad a'r drafodaeth (Tasg C(ii))

**Cyflwyniad**

Pwrpas y cyflwyniad yw gwneud y canlynol:

1. Caniatáu i'r ymgeisydd gyflwyno'r newid mae'n ei gynnig i'r aseswr
2. Darparu cyflwyniad sy'n anelu at sicrhau bod eu newid yn cael ei dderbyn; ac felly, cefnogi'r ymgeisydd i gyflwyno rhagor o dystiolaeth ac ymresymu o blaid eu newid – a dangos eu gallu i gael cefnogaeth i'r newid.

Ar ôl i'r ymgeisydd gyflwyno'r cyflwyniad, bydd yr aseswr yn cynnal trafodaeth fer gyda'r ymgeisydd. Pwrpas y drafodaeth hon yw:

1. Holi'r ymgeisydd am unrhyw feysydd lle mae angen rhagor o eglurhad neu dystiolaeth i gadarnhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ynglŷn â meysydd penodol o fewn cynnwys yr uned

2. Cael trafodaeth fanylach am agweddau ar feddyliau'r ymgeisydd ynglŷn â'u rhesymeg; efallai y bydd angen hyn i egluro elfennau nad oeddent efallai yn amlwg yn eu hadroddiad ysgrifenedig, neu o fewn eu cyflwyniad (e.e. eu meddyliau o ran defnyddio dull penodol; eu rhesymau dros ddewis defnyddio model penodol, yn hytrach nag un arall, ac ati).

## Paratoi a chynllunio ar gyfer y cyflwyniad a'r drafodaeth

Deunyddiau:
- Deunyddiau asesu gorffenedig yr ymgeisydd (Tasg C(i)).
- Ffurflen cofnodi asesiadau allanol (Atodiad 5).
- Cyfarwyddiadau i'r ymgeisydd.

Bydd yr aseswr allanol yn defnyddio eu tystiolaeth o Dasg C(i) i gynllunio'r drafodaeth. Byddant yn sicrhau eu bod nhw'n paratoi cwestiynau ac yn strwythuro'r drafodaeth mewn trefn briodol, gan benderfynu ar ffocws priodol ar gyfer pob pwynt trafod. Rhaid defnyddio Adran 3 y ffurflen cofnodi asesiadau allanol (Atodiad 5) i gofnodi'r wybodaeth hon.

***Sylwer**, dylid ystyried bod y pwyntiau trafod mae'r aseswr yn eu nodi ar ôl adolygu Tasg C(i) yn ddewisiadau dros dro i'w trafod, gan y gall yr ymgeisydd ddatblygu eu hymatebion yn y meysydd hyn drwy eu cyflwyniad. Wrth i'r aseswr arsylwi ar y cyflwyniad, bydd angen iddynt fod yn ymwybodol o ba mor dda mae'r ymgeisydd yn ymateb i'r bylchau a nodwyd a dylent ddiweddaru'r ffurflen yn briodol i sicrhau bod y drafodaeth sy'n dilyn yn canolbwyntio ar unrhyw feysydd sy'n weddill.*

## Ffurflenni cofnodi

Cyn y cyflwyniad a'r drafodaeth, dylai'r aseswr allanol baratoi'r ffurflen cofnodi asesiadau allanol (Atodiad 5) gyda'r meysydd a gynlluniwyd i'w trafod gyda phob ymgeisydd. Dylai'r aseswr allanol gadw fersiwn o'r ffurflen sydd wedi'i pharatoi; yna dylai ddefnyddio hon wrth arsylwi ar y cyflwyniad i gofnodi'r ymatebion mae'r ymgeisydd yn eu rhoi ac unrhyw destunau pellach sy'n cael sylw neu gwestiynau sy'n cael eu gofyn.

Gall yr aseswr naill ai lenwi'r ffurflen yn electronig yn ystod y cyflwyniad a'r drafodaeth neu argraffu copi caled i ysgrifennu arno. Os bydd yr aseswr yn penderfynu argraffu copi caled, efallai yr hoffai gynyddu maint y blychau ysgrifennu cyn argraffu'r ffurflen.

### Amgylchedd asesu

Ar ddiwrnod yr asesiad, y ganolfan sy'n gyfrifol am sicrhau bod unrhyw asesiad yn cael ei gynnal mewn amgylchedd priodol lle nad oes dim amharu na thorri ar draws. Efallai y bydd angen i'r aseswr allanol gysylltu â chynrychiolwyr y ganolfan i sicrhau bod yr amgylchedd asesu'n cael ei gynnal; gallai hyn gynnwys sicrhau bod arwyddion priodol a threfniadau eraill ar waith er mwyn cynnal amgylchedd addas drwy gydol y gweithgaredd asesu.

Os bwriedir cynnal y cyflwyniad a'r drafodaeth o bell, rhaid i'r ganolfan sicrhau bod hyn yn cael ei drefnu a'i gyflawni yn unol â'r gofynion a nodir o dan yr adran '**Cyflwyno asesiadau o**

**bell**'. Bydd gofyn i'r aseswr allanol gadarnhau bod yr amodau hyn wedi'u bodloni, cyn dechrau'r asesiad.

**Cyflwyno'r cyflwyniad a'r drafodaeth**

Mae'n bwysig bod yr aseswr yn sicrhau bod camau yn cael eu cymryd i dawelu meddwl yr ymgeisydd ar ddechrau'r asesiad a chyn dechrau casglu tystiolaeth. Pwrpas hyn yw gallu cynnal asesiad cywir o'r ffordd mae'r ymgeisydd yn cyrraedd y safonau drwy leihau'r graddau y gallai ei nerfau effeithio ar ei berfformiad.

**Dylai'r aseswr allanol wneud y canlynol:**

1. Cyflwyno ei hun ac esbonio ei rôl yn y broses ac, os yw'n briodol, gofyn am ganiatâd i recordio'r drafodaeth.
2. Crynhoi pwrpas a strwythur yr asesiad.
3. Gofyn i'r ymgeisydd pa ddeunydd cyfeirio sydd ganddynt ar gyfer y cyflwyniad a'r drafodaeth (cyfeiriwch at y deunyddiau sydd wedi'u rhestru yn adran amodau'r dasg fel y nodir yn y cyfarwyddiadau i'r ymgeisydd).
4. Pwysleisio'r ffaith y bydd yr asesiad yn gwbl gyfrinachol.
5. Gofyn a oes gan yr ymgeisydd unrhyw gwestiynau cyn i'r asesiad ddechrau.

**Yn ystod y cyflwyniad a'r drafodaeth**

Yn ystod y cyflwyniad, dylai'r aseswr gasglu nodiadau tystiolaeth yn Adran 2 y ffurflen cofnodi asesiadau allanol (Atodiad 5) sydd wedi'i darparu. Argymhellir hefyd bod yr aseswr yn recordio'r drafodaeth; bydd angen cael caniatâd yr ymgeiswyr i wneud hyn. Os cynhelir y cyflwyniad a'r drafodaeth o bell, mae'n rhaid recordio'r ddwy elfen.

Bydd y cyflwyniad yn para tua **15** munud.

Ar ôl y cyflwyniad, bydd yr aseswr yn cynnal trafodaeth **5-10** munud gyda'r ymgeisydd. Dylai'r drafodaeth ei hun deimlo mor naturiol â phosibl, gan ddefnyddio cwestiynau agored er mwyn galluogi'r ymgeisydd i lywio'r sgwrs. Disgwylir i'r aseswr allanol ddefnyddio nifer o dechnegau er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn parhau i fod yn effeithiol ac â phwyslais penodol.

Gall y rhain gynnwys:

- Defnyddio cwestiynau dilynol lle y bo angen i ysgogi rhagor o wybodaeth neu i egluro pwyntiau, cwestiynau megis
    - 'Sut oeddech chi'n gwybod hynny?'
    - 'Pa ddull wnaethoch chi ei ddefnyddio i ddod i'r casgliad hwnnw?'
    - 'Pam wnaethoch chi ddewis y dull hwnnw?'
- Crynhoi'r pwyntiau a nodwyd er mwyn sicrhau ei fod wedi deall a chofnodi tystiolaeth yr ymgeisydd yn gywir

Mae'n rhaid i'r aseswr allanol sicrhau nad yw'n ateb cwestiynau, nac yn rhoi awgrymiadau neu gliwiau yn anfwriadol a fyddai'n gallu arwain ymgeiswyr at atebion.

Ar ddiwedd y drafodaeth, dylai'r aseswr rannu'r nodiadau mae wedi'u cymryd o'r asesiad gyda'r ymgeisydd, gan siarad am yr hyn mae wedi'i arsylwi. Dylai'r aseswr a'r ymgeisydd

lofnodi'r ffurflen gofnodi asesiad allanol i gadarnhau cywirdeb y dystiolaeth a gasglwyd. Efallai y bydd hyn yn golygu bod angen i'r ymgeisydd lofnodi'r ffurflen o bell, yn ogystal â chytuno ar lafar bod y dystiolaeth yn gywir fel rhan o'r broses o gofnodi'r asesiad. **Sylwer**, nid yw'r cam hwn ar gyfer darparu adborth ffurfiol na chanlyniad graddio.

**Adolygu'r dystiolaeth a'r graddau**

Dylai'r aseswr allanol gadarnhau bod ffurflen datganiad dilysrwydd sydd wedi'i llenwi (Atodiad 10) wedi cael ei chyflwyno ar y cyd â thasgau'r ymgeisydd.

Dylai canlyniad pob tasg gael ei gofnodi yn y Ffurflen crynhoi asesiad allanol (Atodiad 5). Bydd yr aseswr allanol yn cyflwyno'r ffurflen hon i City & Guilds ar ôl gorffen marcio'r tair tasg.

**Ailgyflwyno tystiolaeth**

Os bydd yr aseswr allanol yn nodi unrhyw dasg wrth farcio lle nad yw'r ymgeisydd wedi bodloni'r meini prawf llwyddo, yna rhaid rhoi adborth i'r ganolfan a'r ymgeisydd er mwyn eu hysbysu. Dylid defnyddio'r Ffurflen Adborth (Atodiad 8) at y pwrpas hwn.

Dim ond y dasg/tasgau lle nad yw'r meini prawf llwyddo wedi'u bodloni y disgwylir i ymgeiswyr ei/eu hailgyflwyno.

# Atodiad 1 Meini prawf marcio

Dylid defnyddio'r meini prawf llwyddo canlynol ar gyfer asesu'r tasgau unigol o fewn yr asesiad hwn.

| Tasg | Meini prawf llwyddo | Rhannau perthnasol o'r uned |
|---|---|---|
| Bi) | Er mwyn dyfarnu marc llwyddo, mae'n rhaid i'r ddogfen wybodaeth ddangos y canlynol:<br>• dealltwriaeth o fframweithiau deddfwriaethol a fframweithiau rheoleiddio, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a'r CCUHP<br>• dealltwriaeth o bolisïau, canllawiau a safonau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys dealltwriaeth o'r polisi ynghylch y Gymraeg<br>• dealltwriaeth o sut y cefnogir darpariaeth, diogelwch a chyfranogiad gan fframweithiau deddfwriaethol a fframweithiau rheoleiddio a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r ymgeisydd yn gwneud cysylltiadau clir rhwng y fframweithiau hyn a datblygiad ymarfer plentyn-ganolog diogel.<br>• dealltwriaeth o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag atal ac ymyrryd yn gynnar<br>• dealltwriaeth o elfennau y mae angen eu deall er mwyn helpu i wella ymarfer gofal plant – e.e. myfyrio ar ddulliau ymyrryd yn gynnar, cyfranogiad a diogelwch, a chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant<br>• dealltwriaeth o ddeddfwriaeth diogelu, canllawiau ac arferion cenedlaethol<br><br>Mae'n rhaid i'r ddogfen wybodaeth gael ei chyflwyno'n glir fel dogfen ganllaw er mwyn bodloni ei phwrpas bwriadedig. Mae'n rhaid iddi gynnwys adrannau a phenawdau clir. | **405**<br>DD1<br>DD2<br>DD3<br>DD4<br>DD5 |
| Bii) | Er mwyn dyfarnu marc llwyddo, mae'n rhaid i ymateb yr ymgeisydd:<br>• ddangos dealltwriaeth gadarn o'r damcaniaethau/modelau sy'n ymdrin â  ffactorau biolegol, cymdeithasegol a seicolegol sy'n ymwneud â datblygiad plant. **Gall ymateb yr ymgeisydd gyfeirio at un model/damcaniaeth sy'n ymdrin â'r holl ffactorau hyn (e.e. y model Bioseicogymdeithasol) neu gall drafod amrediad o fodelau/damcaniaethau gan adlewyrchu  dylanwad pob un o'r ffactorau hyn.**<br>• gwneud cysylltiadau perthnasol rhwng agweddau ar y ddamcaniaeth/model(au) dan sylw a sut y gellir cymhwyso hyn yn ymarferol er mwyn cefnogi datblygiad cadarnhaol a chyfannol i blant. Mae'r ymgeisydd yn dangos | **405**<br>DD4<br>DD6 |

| | | |
|---|---|---|
| | ystyriaeth ddamcaniaethol o'r ddamcaniaeth/model(au) a goblygiadau cymhwyso'r ddamcaniaeth/model(au) yn ymarferol.<br>• dangos dealltwriaeth o sut mae'r ddamcaniaeth/model(au) dan sylw yn adlewyrchu effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar ddatblygiad plant.<br>dangos dealltwriaeth o sut mae'r ddamcaniaeth/model(au) dan sylw yn adlewyrchu effaith mesurau ymyrryd yn gynnar ac atal ar ddatblygiad plant. | |
| Ci) and C(ii) | Dylid defnyddio'r meini prawf canlynol i ffurfio barn gyfannol am berfformiad ymgeiswyr yn seiliedig ar dystiolaeth a gyflwynir ar draws Tasgau B(i) a B(ii).<br><br>Mae'r ymgeisydd wedi rhesymoli'n glir y broses a fwriadwyd i gefnogi'r newid i ymarfer mae'n ei gynnig. Rhaid arsylwi ar y rhesymoli hwn drwy bob un o wahanol elfennau'r dasg, h.y.<br><br>• Mae'r **adroddiad** yn dangos dealltwriaeth fanwl o sut mae maes darpariaeth wedi'i ddewis; ac yn cysylltu â sut caiff y broses ei defnyddio i gefnogi datblygiad cyfannol, canlyniadau cadarnhaol a llesiant plant yn y lleoliad a sut mae'r newid yn ymwneud â damcaniaethau a modelau datblygiad plant. Mae'r ymgeisydd wedi nodi sut mae'r newid arfaethedig yn cyd-fynd â fframweithiau deddfwriaethol a fframweithiau rheoleiddio ac **o leiaf un** o'r canlynol:<br>• Dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau (DD1)<br>• Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (DD2)<br>• Y Gymraeg (DD3)<br>• Atal ac ymyrryd yn gynnar (DD4)<br>• Diogelu (DD5)<br>Mae'r ymgeisydd yn rhoi amlinelliad o sut byddai'n cynllunio'r newid ac unrhyw ystyriaethau sydd eu hangen i gyflwyno a gwerthuso'r newidiadau.<br>Mae'r ymgeisydd wedi dangos y defnydd o ystadegau, ymchwil a dogfennaeth sefydliadol i gefnogi eu hymateb.<br><br>• Mae'r ymgeisydd yn rhoi eu **cyflwyniad** mewn ffordd resymol; mae'n casglu gwybodaeth mewn ffordd sy'n cyfathrebu am y cynnig, gan wneud cysylltiadau clir â sut bydd hyn yn cefnogi datblygiad cyfannol, canlyniadau cadarnhaol a llesiant plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth.<br>• Gall yr ymgeisydd ddarparu ymatebion clir a chryno i **gwestiynau neu bwyntiau trafod** a ofynnir, neu ymhelaethu ar agweddau allweddol ar eu cynnig fel y'u nodir gan yr aseswr. | **405**<br>DD1 / 2 / 3 / 4 neu 5 yn dibynnu ar y cyd-destun<br><br>DD6 |

| | | |
|---|---|---|
| | Dylai'r adroddiad, y cyflwyniad a'r drafodaeth ddilynol argyhoeddi'r aseswr bod yr ymgeisydd yn deall:<br>• Sut i ddefnyddio damcaniaethau a modelau i gefnogi datblygiad cyfannol a gwell canlyniadau i blant<br>• Fframweithiau deddfwriaethol a fframweithiau rheoleiddio sy'n ymwneud â chyd-destun eu cynnig h.y. dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau / cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant / y Gymraeg / atal ac ymyrryd yn gynnar neu ddiogelu | |
| Ciii) | Mae'r ymgeisydd wedi llunio adroddiad ymchwil sy'n dangos yn glir ei fod wedi archwilio maes sy'n ymwneud â'r maes ffocws a nodwyd yn C(i). Mae'r adroddiad ymchwil yn cynnwys cyfeiriad at yr holl ffynonellau, deunyddiau ac adnoddau a ddefnyddiwyd – gyda llyfryddiaeth er mwyn cyflwyno'r wybodaeth hon yn glir.<br><br>Mae'r adroddiad yn nodi'r canlynol yn benodol:<br>• y dull a ddefnyddiwyd gan yr ymgeisydd i ymchwilio i syniadau<br>• y dull a ddefnyddiwyd gan yr ymgeisydd i gynllunio ei ymchwil<br>• yr adnoddau/technegau a ddefnyddiwyd gan yr ymgeisydd<br>• crynodeb o ganfyddiadau'r ymgeisydd, gyda chysylltiadau clir wedi'u gwneud rhwng yr ymchwil a nodwyd a sut y gellid defnyddio/cymhwyso'r ymchwil hon er mwyn cefnogi'r maes ffocws a nodwyd i'w archwilio<br>• casgliad cyffredinol ynghylch y ffordd y mae'r ymgeisydd yn bwriadu defnyddio ei ganfyddiadau i gefnogi'r broses o roi cynllun ar waith er mwyn datblygu/gwella ymarfer.<br><br>Mae ymchwil yr ymgeisydd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â'r maes ffocws a nodwyd. Mae'r ymgeisydd wedi dangos dull rhesymegol wrth ymgymryd â'i waith ymchwil, gan nodi meysydd y byddai'n ddilys eu harchwilio mewn perthynas â chefnogi ymarfer yn y maes a ddewiswyd.<br><br>Mae casgliad yr ymgeisydd yn crynhoi ei ganfyddiadau o'r ymchwil. Mae'n dangos dull clir a chyfiawn ar gyfer sut y bydd yn cefnogi ei gynllun i ddatblygu ymarfer o'i ymchwil. Mae'r rhesymeg a'r casgliadau a geir yn dangos yn ddilys bod yr ymgeisydd wedi cysylltu'r ymchwil a wnaed ganddo â'r ffordd y gall symud ymlaen i gefnogi datblygiad ymarfer, gan ddangos yn glir sut y mae hyn wedi canolbwyntio ar gefnogi canlyniadau cadarnhaol i blant. | **415**<br>DD1<br>DD2<br>DD3 |

# Atodiad 2 Tablau disgrifyddion graddio

Defnyddir y disgrifyddion graddio canlynol er mwyn llunio barn gyfannol gyffredinol ar gyfer asesu Tasgau A ac Ch i ymgeiswyr sy'n ymgymryd ag unrhyw rai o'r llwybrau yn y cymhwyster hwn.

Seiliwyd y disgrifyddion graddio ar amcanion dysgu allweddol y cymhwyster. Adlewyrchiad o'r lefel dderbyniol y mae'n rhaid i ymgeiswyr ei dangos fel tystiolaeth eu bod wedi bodloni'r amcan drwy'r tasgau asesu yw'r disgrifyddion llwyddo.

Cafodd y disgrifyddion llwyddo eu mapio yn ôl deilliannau dysgu allweddol cynnwys y cymhwyster sy'n adlewyrchu orau'r amcanion hyn. *Sylwer*, gan fod cynnwys y cymhwyster yn gyfannol ei natur, darperir y mapio deilliannau dysgu i ddangos y meysydd hynny o'r cynnwys lle gall ymgeiswyr ddangos eu gallu i fodloni'r amcanion hyn yn y ffordd orau.

| **Amcanion** | **Cwmpas** (Uned/Deilliant dysgu) | **Disgrifydd llwyddo** |
|---|---|---|
| *Cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y llwybr a ddewiswyd* | **416** DD2, DD3, DD4, DD5 – DD7<br>**417** DD1, DD3-DD4, DD5, DD8<br>**419** DD3, DD4 | Mae'r ymgeisydd yn dangos ystyriaeth o ymarfer plentyn-ganolog yn ei waith.<br><br>Mae gweithgareddau yn cael eu cynllunio sy'n cynnwys plant a'u teuluoedd/gofalwyr ac sy'n dangos bod ystyriaeth wedi'i rhoi i'r ffordd y cawsant eu datblygu gyda phlant mewn golwg; gan gynnwys ystyried llais a dewis plant a'u teuluoedd/gofalwyr.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn dangos ei fod wedi mynd ati i ymgysylltu a chydweithio â phlant, eu teuluoedd/gofalwyr a phobl eraill, gan gynnwys gweithwyr amlasiantaeth, er mwyn sicrhau y gweithredir ar 'yr hyn sy'n bwysig' i'r plant a'u teuluoedd/gofalwyr.<br><br>Rhoddir ystyriaeth i sicrhau bod y gweithle/lleoliad yn bodloni'r gofynion sylfaenol o ran sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag pryderon iechyd a diogelwch. |

| **Amcanion** | **Cwmpas** (Uned/Deilliant dysgu) | **Disgrifydd llwyddo** |
|---|---|---|
| *Cymhwyso gwybodaeth am* ***ddamcaniaethau, modelau a dulliau*** *yn y llwybr a ddewiswyd, ynghyd â dealltwriaeth ohonynt* | **416** DD1<br>**417** DD2<br>**419** DD1, DD5 | Mae ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth o amrywiaeth o ddamcaniaethau, modelau a dulliau wrth ymarfer.<br><br>Mae ymgeiswyr yn defnyddio amrywiaeth o ddamcaniaethau, modelau a dulliau wrth ymarfer; ac yn defnyddio'r pecyn cymorth o dechnegau sydd ar gael iddynt mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.<br><br>Mae ymgeiswyr yn defnyddio amrywiaeth o ddamcaniaethau, modelau a dulliau wrth ymarfer; maent yn dangos eu bod wedi ystyried canlyniad mabwysiadu dulliau gwahanol, ond yn defnyddio dulliau sy'n cefnogi'r canlyniad gorau ar gyfer sefyllfaoedd yn gyson.<br><br>Mae ymgeiswyr yn mabwysiadu'r defnydd o ddamcaniaethau, modelau a dulliau sy'n dangos dealltwriaeth ddatblygedig o sut y bydd y dull a ddefnyddir o fudd wrth gefnogi'r gweithgaredd penodol.<br><br>*(Yn y cyd-destun hwn, byddai damcaniaethau, modelau a fframweithiau yn cynnwys fframweithiau deddfwriaethol a fframweithiau rheoleiddio ac ymchwil cysylltiedig).* |
| *Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o* ***sut i gynnal a gwella canlyniadau i blant*** *yn y llwybr a ddewiswyd* | **416** DD2, DD4<br>**417** DD6, DD7<br>**419** DD3 | Mae ymgeiswyr yn dangos eu gallu i gyflwyno newid yn llwyddiannus yn y gweithle/lleoliad. Cyflwynir newid drwy ystyried ei effaith ar y gweithle/lleoliad/gweithlu ehangach. |

| Amcanion | Cwmpas (Uned/Deilliant dysgu) | Disgrifydd llwyddo |
|---|---|---|
| ***Ffurfio dadleuon a llunio barn*** *yn y maes llwybr a ddewiswyd* | **416** DD1<br>**417** DD2<br>**419** DD1, DD2, DD4 | Mae'r ymgeisydd yn nodi gweithgareddau a all helpu i gefnogi gwelliannau yn y gweithle/lleoliad yn effeithiol.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn deall, gyda chyfiawnhad clir, y rhesymau dros wneud newidiadau – gyda dealltwriaeth o oblygiadau newid, gan gynnwys y manteision a'r heriau a ragwelir.<br><br>Mae ymgeiswyr yn gallu adolygu a gwerthuso effeithiolrwydd eu penderfyniadau, gan nodi'r hyn sydd wedi gweithio'n dda, a lle gellid gwneud gwelliannau. Mae gwerthusiadau yn adlewyrchu'r ffordd y defnyddir fframweithiau deddfwriaethol a damcaniaethol, ynghyd ag ymchwil sy'n ymwneud â datblygiad plant. |
| *Defnyddio* ***meddwl myfyriol a beirniadol*** *yng nghyd-destun y maes llwybr a ddewiswyd* | **416** DD2, DD6<br>**417** DD4, DD7, DD9<br>**419** DD5, DD6 | Mae ymgeiswyr yn gwerthuso eu gwaith eu hunain ac yn myfyrio arno gan ddangos sut y defnyddiwyd hyn i gefnogi eu gwaith wrth iddynt roi cynllun eu project ar waith yn ymarferol.<br><br>Mae'r ymgeisydd wedi dangos bod myfyrio ar ei ymarfer ei hun wedi dylanwadu ar ei arddull ac wrth fyfyrio ar ymarfer presennol drwy roi cynllun ei broject ar waith yn y gweithle/lleoliad.<br><br>Mae'r ymgeisydd wedi dangos dealltwriaeth o'r modd y mae ei ffordd o weithio wedi cael effaith weithredol ar eraill, o fewn y gweithle/lleoliad a'r tu allan iddo, a'r effaith y mae ei waith wedi'i chael ar y plant y mae'n gweithio gyda nhw.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn defnyddio dadansoddiad beirniadol fel mater o drefn er mwyn monitro a llywio ei ymarfer a myfyrio arno. Defnyddir y casgliadau y deuir iddynt i wneud y penderfyniad mwyaf gwybodus ar gyfer y sefyllfa.<br><br>Ystyrir goblygiadau penderfyniadau a chanlyniadau posibl wrth wneud penderfyniad terfynol ynghylch y camau i'w cymryd. |

| Amcanion | Cwmpas (Uned/Deilliant dysgu) | Disgrifydd llwyddo |
|---|---|---|
| *Dangos* ***hunanymwybyddiaeth*** *er mwyn gwella ymarfer* | **416** DD6<br>**417** DD6<br>**419** DD5, DD6 | Mae'r ymgeisydd yn dangos ei fod yn defnyddio dadansoddiad beirniadol fel mater o drefn er mwyn llywio ei ymarfer a myfyrio arno. Defnyddir y casgliadau y deuir iddynt i wneud y penderfyniad mwyaf gwybodus ar gyfer y sefyllfa. Mae'r ymgeisydd yn dangos sut mae ei ymarfer ei hun wedi cael ei addasu yn seiliedig ar fyfyrio.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn dangos gallu i werthuso gwaith ei weithle/lleoliad, gan gynnwys unrhyw raglenni cefnogi a gynigir gan y gweithle/lleoliad. Mae'r ymgeisydd yn llunio barn gadarn ar effeithiolrwydd y gwaith a wneir, gan nodi lle y gellir rhoi gwelliannau ar waith a'u cymeradwyo – a sut y gall gefnogi'r newidiadau hyn yn bersonol drwy ei ymarfer datblygedig ei hun. |

# Atodiad 3 Ffurflen gofnodi'r aseswr mewnol

| **Enw'r ymgeisydd** | **Teitl** | **Rhif yr ymgeisydd** | |
|---|---|---|---|
| **Enw'r aseswr mewnol** | Enw'r aseswr mewnol | **Dyddiad asesu** | DD/MM/BB |

| **Adran 1 – Adolygiad o dystiolaeth a gyflwynwyd** (Tasg C(iii)) |
|---|
| **Nodwch sut mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd ar gyfer Tasg C(iii) yn bodloni gofynion y meini prawf marcio** |
| |

| Casgliad perfformiad terfynol | |
|---|---|

| Adran 2 – Adolygiad o dystiolaeth a gyflwynwyd (Tasg Ch) |
|---|
| **Nodwch isod sut mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn y portffolio, cynllun y project a thystiolaeth y project yn bodloni gofynion y disgrifyddion graddio** |
| |
| **Meysydd canlyniadau allweddol lle y ceir tystiolaeth gyfyngedig, lle disgwylir gweld eglurhad neu ymhelaethiad pellach** |
| |
| **Adran 3 – Trafodaeth Broffesiynol** |
| **Rhowch fanylion isod a fydd yn cefnogi strwythur y drafodaeth yn seiliedig ar adolygu'r portffolio, cynllun y project a thystiolaeth y project (Adran 1) e.e.**<br>• Prif destunau/themâu i ymdrin â nhw yn ystod y drafodaeth<br>• Mathau o gwestiynau i'w gofyn a fydd yn helpu i ddangos tystiolaeth o wybodaeth/dealltwriaeth yr ymgeisydd |
| |
| **Defnyddiwch yr adran isod i gasglu tystiolaeth o'r drafodaeth gyda'r ymgeisydd; dylai hyn gynnwys unrhyw gwestiynau penodol a ofynnwyd.** |
| |

| |
|---|
| **Defnyddiwch yr adran isod i ddarparu casgliadau terfynol ar y ffordd y mae'r asesiad cyfan wedi bodloni gofynion y disgrifyddion graddio.** |
| |

| | |
|---|---|
| **Casgliad perfformiad terfynol** | |

**Cadarnhaf fod y dystiolaeth a roddir yma yn gyfrif cywir o'r asesiad a gynhaliwyd.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnod yr aseswr mewnol** | Llofnod | **Dyddiad** | DD/MM/BB |
| **Llofnod yr ymgeisydd** | Llofnod | **Dyddiad** | DD/MM/BB |

# Atodiad 4 Ffurflen crynhoi graddio yr aseswr mewnol

| Adran 1 | | |
|---|---|---|
| **Amcanion** | **Crynodeb yr aseswr mewnol** | **Tystiolaeth lle y'i gwelwyd** |
| *Cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y llwybr a ddewiswyd* | | |
| *Cymhwyso gwybodaeth am* ***ddamcaniaethau, modelau a dulliau*** *yn y llwybr a ddewiswyd, ynghyd â dealltwriaeth ohonynt* | | |
| *Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o* ***sut i gynnal canlyniadau i blant*** *yn y llwybr a ddewiswyd* | | |
| ***Ffurfio dadleuon a llunio barn*** *yn y maes llwybr a ddewiswyd* | | |

| Adran 1 | | |
|---|---|---|
| **Amcanion** | **Crynodeb yr aseswr mewnol** | **Tystiolaeth lle y'i gwelwyd** |
| *Defnyddio* ***meddwl myfyriol a beirniadol*** *yng nghyd-destun y llwybr a ddewiswyd* | | |
| *Dangos* ***hunanymwybyddiaeth*** *er mwyn gwella ymarfer* | | |

| **Adran 2** | | |
|---|---|---|
| **Cadarnhau'r farn asesu gyffredinol** | **Mae'r ymgeisydd wedi cynhyrchu digon o dystiolaeth i lwyddo yn y cymhwyster hwn, yn seiliedig ar adolygiad cyfannol o'r disgrifyddion graddio yn y chwe maes amcan, a'r gofynion ychwanegol y mae angen eu bodloni o ran tystiolaeth.** | |
| | **Mae'r ymgeisydd wedi methu â chynhyrchu digon o dystiolaeth i lwyddo, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd a'r ffordd y mae'r dystiolaeth hon yn bodloni gofynion y disgrifyddion graddio yn y chwe maes amcan, a/neu'r ffaith nad yw'r gofynion ychwanegol o ran tystiolaeth wedi'u bodloni.<br>Dylid ymhelaethu ar y rhesymau am hyn yn yr adran Adborth isod.** | |

| **Adborth** |
|---|
| |

| **Llofnod yr aseswr mewnol** | | **Dyddiad** | |
|---|---|---|---|

# Atodiad 5 Ffurflen cofnodi asesiadau allanol

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw'r ymgeisydd** | **Teitl** | **Ymgeisydd rhif** | |
| **Enw'r aseswr** | Enw'r aseswr | **Dyddiad asesu** | DD/MM/BB |

| | |
|---|---|
| **Adran 1**<br>**B(i) Adolygu'r dystiolaeth a gyflwynwyd** | |
| **Rhowch fanylion isod am sut mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad yn bodloni gofynion y meini prawf llwyddo** | |
| | |
| **Canlyniad terfynol – B(i)** (Llwyddo / methu) | |
| **B(ii) – Adolygu'r dystiolaeth a gyflwynwyd** | |
| **Rhowch fanylion isod am sut mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad yn bodloni gofynion y meini prawf llwyddo** | |
| | |
| **Canlyniad terfynol – B(ii)** (Llwyddo / methu) | |

| |
|---|
| **Adran 2**<br>**C(i) - Adolygu'r adroddiad a gyflwynwyd** |
| **Rhowch fanylion isod am sut mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad yn bodloni gofynion y meini prawf llwyddo** |
| |
| **Meysydd deilliannau allweddol lle mae tystiolaeth yn gyfyngedig, mae disgwyl gweld eglurhad neu ehangu pellach** |
| |
| **C(ii) - Cyflwyniad** |
| **Defnyddiwch yr adran isod i wneud nodiadau am gyflwyniad yr ymgeisydd; gan gynnwys sut mae cynnwys y cyflwyniad yn bodloni gofynion y meini prawf llwyddo, ac unrhyw ehangu ar feysydd deilliannau lle gwelwyd tystiolaeth gyfyngedig yn yr Adroddiad.** |
| |

| C(ii) – Trafodaeth |
|---|
| **Rhowch fanylion isod fydd yn ategu strwythur y drafodaeth yn seiliedig ar adolygu'r Adroddiad (Adran 1), e.e.**<br>• Prif bynciau/themâu i'w cwmpasu yn ystod y drafodaeth<br>• Mathau o gwestiynau i'w gofyn fydd yn helpu i ddangos gwybodaeth/dealltwriaeth yr ymgeisydd |
| |
| **Defnyddiwch yr adran isod i gasglu tystiolaeth o'r drafodaeth gyda'r ymgeisydd; dylai hyn gynnwys unrhyw gwestiynau penodol gafodd eu gofyn.** |
| |
| **Defnyddiwch yr adran isod i roi casgliadau terfynol am sut mae'r asesiad cyfan wedi bodloni gofynion y meini prawf llwyddo** |
| |

| | |
|---|---|
| **Canlyniad terfynol (C) (Llwyddo / methu)** | |

**Cadarnhaf fod y dystiolaeth a roddir yma yn gyfrif cywir o'r asesiad a gynhaliwyd.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnod yr aseswr** | Llofnod | **Dyddiad** | DD/MM/BB |
| **Llofnod yr ymgeisydd** | Llofnod | **Dyddiad** | DD/MM/BB |

# Atodiad 6 Ffurflen cymeradwyo project

| Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant | |
|---|---|
| **Enw'r ymgeisydd:** | **Dyddiad y cyfarfod:** |
| **Rhif ENR yr ymgeisydd:** | |
| **Enw'r ganolfan:** | **Rhif y ganolfan:**<br>-- -- -- -- -- -- -- |
| **Lleoliad** | |
| **Cyfle** | |
| **At ddefnydd y ganolfan:**<br>Disgrifiwch sut mae cynllun y project yn cyflawni'r amcanion canlynol. | |

| Amcan | Disgrifiad |
|---|---|
| Darparu cyfle i gymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau o fewn y maes llwybr | |
| Darparu cyfle i gymhwyso gwybodaeth am ddamcaniaethau, modelau a dulliau yn y maes llwybr, ynghyd â dealltwriaeth ohonynt | |
| Yn rhoi cyfle i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i gynnal canlyniadau i blant o fewn ardal y llwybr | |

**Efallai y bydd y cwestiynau canlynol yn ddefnyddiol i** aseswyr mewnol **yn y cyflwyniad i gynllun y project:**

| **Rhif y cwestiwn** | **Cwestiwn** |
|---|---|
| C1 | Beth yw'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â gweithredu eich cynllun arfaethedig ac allwch chi nodi unrhyw gynlluniau wrth gefn ar gyfer y gweithle/lleoliad? |
| C2 | Beth fydd yr heriau, yn eich barn chi, wrth reoli'r broses o roi'r ymarfer a gynigir yng nghynllun eich project ar waith? |
| C3 | Pa strategaethau rydych chi'n eu hystyried i fonitro, mesur ac adrodd ar effaith y broses o roi'r ymarfer a gynigir yng nghynllun y project ar waith? Esboniwch y rhesymau dros eich dewis. |

| **Cyfleoedd i arsylwi ar ymarfer**<br>*Nodwch isod gyfleoedd penodol y mae cynllun yr ymgeisydd yn eu rhoi i arsylwi ar ymarfer.* |
|---|
| |

| **Sut mae'r cynllun yn sicrhau bod yr uned yn cael ei chwmpasu**<br>*Nodwch isod ddeilliannau dysgu cynnwys y llwybr lle nad oes efallai ddigon o dystiolaeth o'i gwmpasu drwy'r project, fel a welir yng nghynllun y project.* |
|---|
| |

| **Deilliant** | |
|---|---|
| **Project wedi'i gymeradwyo**<br>Mae'r ymgeisydd yn gallu dechrau'r broses o roi'r project ar waith. | |

| | |
|---|---|
| **Project wedi'i gymeradwyo yn amodol ar ddiwygiadau**<br>Mae'r aseswr o'r farn bod y cyfle yn addas i'r ymgeisydd fwrw ymlaen â'r project, yn amodol ar ddiwygiadau. (Rhowch sylwadau ar ddiwygiadau yn yr adran sylwadau.) | |
| **Project wedi'i wrthod**<br>**Nid** yw'r aseswr o'r farn bod y cyfle yn addas i'r ymgeisydd fwrw ymlaen â'r project. (Rhowch sylwadau yn yr adran sylwadau.) | |

| | |
|---|---|
| Llofnod yr ymgeisydd: | |
| Dyddiad: | |
| Llofnod yr aseswr mewnol : | |
| Dyddiad: | |
| Cadarnhad o lofnod y rheolwr/cyflogwr: | |
| Dyddiad: | |

## Atodiad 7 Ffurflen cofnodi arsylwadau (aseswr mewnol)

| **Cofnod arsylwi** | |
|---|---|
| Enw'r ymgeisydd | |
| Rhif/dyddiad arsylwi | |
| Gweithgaredd project yr arsylwyd arno | |
| | |
| Arsylwadau a wnaed *(Nodwch sut mae'r arsylwadau yn adlewyrchu pob un o'r canlyniadau ymarfer allweddol)* | |
| Sut mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sy'n berthnasol i'r maes llwybr a ddewiswyd? | |
| *Arsylwadau cyffredinol* | |
| Cwestiynau dilynol a ofynnwyd *(Rhestrwch y cwestiynau a ddefnyddiwyd i holi'r ymgeisydd ymhellach a'i ymatebion)* | |
| Llofnod yr ymgeisydd: | |
| Dyddiad: | |
| Llofnod yr aseswr mewnol : | |
| Dyddiad: | |
| Cadarnhad o lofnod y rheolwr/cyflogwr: | |
| Dyddiad: | |

# Atodiad 8 Ffurflen adborth (Aseswr mewnol)

## Teitl y cymhwyster:

| |
|---|
| |

| | |
|---|---|
| Enw'r ymgeisydd | Rhif yr ymgeisydd |
| Enw'r aseswr | Dyddiad cyflwyno |

| |
|---|
| Rhif y Dasg/Rhifau'r Dasg: |

| **Cyfeirnod y Dystiolaeth** | **Adborth** | **Dyddiad targed a chynllun gweithredu ar gyfer ailgyflwyno** |
|---|---|---|
| | | |

Rwy'n cadarnhau bod yr asesiad hwn wedi cael ei gwblhau i'r safon ofynnol a'i fod yn bodloni'r gofynion o ran dilysrwydd *(validity)*, cyfrededd, awthentigedd *(authenticity)* a digonolrwydd.

| |
|---|
| Llofnod yr aseswr a'r dyddiad: |

# Atodiad 9 Ffurflen Adborth y Ganolfan (Aseswr allanol)

## Adran 1

| | |
|---|---|
| Enw'r ymgeisydd | Rhif yr Ymgeisydd |
| Enw'r ganolfan | Rhif y ganolfan |
| Teitl y cymhwyster: | Rhif y cymhwyster |
| Enw'r aseswr allanol | Dyddiad yr asesiad |

## Adran 2

Dylid cyfeirio'r adborth at y tiwtor/aseswr mewnol i gefnogi datblygiad gwybodaeth, dealltwriaeth a/neu sgiliau'r ymgeisydd. Bydd hefyd yn cadarnhau lle mae'r dystiolaeth yn bodloni'r safon ofynnol. **Ni** fydd yr adborth yn cynnwys sylwadau allai ddylanwadu o gwbl ar ailgyflwyno'r dasg/tasgau **e.e. peidiwch â rhoi enghreifftiau o sut gellid diwygio ymateb ymgeisydd neu fanylion i nodi pa gynnwys allai fod ar goll o'r ymateb.**

| Cyfeirnod y Dystiolaeth | Adborth | Dyfarniad yn ôl Tasg (e.e. llwyddo/ailgymryd/ailsefyll) | Dyddiad targed a chynllun gweithredu ar gyfer ailgyflwyno |
|---|---|---|---|
| Tasg B(i) | | | |
| Tasg B(ii) | | | |
| Tasg C(i) | | | |
| Tasg C(ii) | | | |
| Casgliad perfformiad terfynol: | | | |

# Atodiad 10 Datganiad

## Datganiad Dilysrwydd

Enw'r ymgeisydd | Rhif yr ymgeisydd

Enw'r ganolfan | Rhif y ganolfan

**Ymgeisydd:**

**Rwy'n cadarnhau mai fy ngwaith i yw'r holl waith a gyflwynwyd, ac fy mod wedi cydnabod yr holl ffynonellau a ddefnyddiwyd gennyf.**

Llofnod yr ymgeisydd | Dyddiad

**Llofnod yr aseswr mewnol:**

**Rwy'n cadarnhau y gwnaed yr holl waith o dan amodau a gynlluniwyd i sicrhau dilysrwydd gwaith yr ymgeisydd, ac rwy'n fodlon, hyd eithaf fy ngwybodaeth, mai gwaith yr ymgeisydd yn unig yw'r hyn a gynhyrchwyd.**

Llofnod yr aseswr mewnol | Dyddiad

**Noder:**
**Lle na all yr ymgeisydd a/neu'r aseswr mewnol gadarnhau dilysrwydd, neu lle na fydd wedi gwneud hynny drwy lofnodi'r datganiad hwn, ni chaiff y gwaith ei dderbyn i'w gymedroli. Os bydd unrhyw gwestiwn yn codi ynghylch dilysrwydd, gellir cysylltu â'r tiwtor er mwyn cael cyfiawnhad.**

# Atodiad 11 Sgript Cyfarfod Cynllunio (Aseswr allanol)

**Croeso a Chyflwyniadau:** Helo, diolch am ymuno â'r cyfarfod Cynllunio hwn heddiw. (*Gwiriad sain).*

Fy enw i yw ------ o City & Guilds ac rwy'n Aseswr Allanol ar gyfer cymhwyster 8041-17.

Fi fydd yn eich arwain chi/arwain y dysgwr drwy'r cyfarfod cynllunio heddiw. (*Y sawl sy'n bresennol i gyflwyno eu hunain).*

Mae'n bwysig i mi ddweud ar hyn o bryd mai fy rôl fel Aseswr Allanol yw eich cefnogi chi/cefnogi'r dysgwr drwy'r broses o gynllunio'r Asesiad Allanol a chynnal yr asesiadau yn unol â'r cytundebau a wneir yn ystod y cyfarfod hwn. Mae angen i mi sicrhau fy mod yn aros yn ddiduedd ac yn cynnal fy annibyniaeth yn y broses asesu. Os oes gennych chi/gan y dysgwr unrhyw ymholiadau na allaf eu hateb, cysylltwch â welshqualifications@cityandguilds.com am gymorth pellach.

**Pwrpas y cyfarfod cynllunio yw gwneud y canlynol:**

- Egluro'r dystiolaeth sydd ei hangen cyn yr Asesiad Allanol
- Esbonio sut caiff yr Asesiad Allanol ei gyflwyno
- Cytuno ar ddyddiadau ac amseroedd yr asesiad

**Tystiolaeth sy'n ofynnol cyn Asesiad Allanol:**

Heddiw rydyn ni'n mynd i drafod sut bydd yr asesiad allanol ar gyfer y cymhwyster yn cael ei gynnal.

Bydd angen darparu'r dystiolaeth i ategu'r cyflwyniad a'r drafodaeth i mi o leiaf **15 diwrnod cyn** y dyddiad rydyn ni'n cytuno arno heddiw. Mae hyn oherwydd y bydd angen i mi adolygu'r holl dystiolaeth hon cyn i ni gyfarfod, a bydd yn fy helpu i ddeall y daith rydych chi/mae'r dysgwr wedi bod arni a sut mae'r dystiolaeth rydych chi wedi'i chynhyrchu wedi'i llunio. Os bydd gen i unrhyw bryderon am y dystiolaeth hon, gallai hyn ohirio rhan nesaf yr asesiad allanol. Bydd City & Guilds yn rhybuddio'r aseswr mewnol os oes angen oedi cyn asesu a pha gamau nesaf sydd eu hangen.

Mae'r dystiolaeth y bydd angen i chi/y dysgwr ei darparu **cyn** y cyflwyniad a'r drafodaeth yn cynnwys:

- adroddiad ar gyfer Tasg Ci
- Ffurflen datganiad

Bydd eich aseswr mewnol hefyd yn uwchlwytho'r cofnodion asesu ac unrhyw adborth a ddarparwyd yn sgil hynny.
**Bydd methu ag uwchlwytho'r dystiolaeth mewn pryd yn arafu cynnydd yr asesiad allanol**

**Beth i'w ddisgwyl yn yr Asesiad Allanol?**

Bydd yr Asesiad Allanol yn cael ei gynnal gennyf fi, eich Aseswr Allanol. Bydd hwn yn gyflwyniad a thrafodaeth a gynhelir ar-lein; byddaf yn disgwyl i chi arwain yr asesiad er y gallaf eich annog i siarad am rai pynciau i ddechrau.
Mae'r elfen hon o'ch asesiad yn weithgaredd asesu ar gyfer tasg C(ii).

Nod y drafodaeth fydd cadarnhau meysydd o adroddiad C(i), ac ehangu arnynt, os nad oes tystiolaeth lawn ohonynt yn eich adroddiad.

Byddaf yn defnyddio fy adolygiad o'r dystiolaeth o Dasgau C(i( i gynllunio'r drafodaeth i sicrhau bod y drafodaeth wedi'i theilwra tuag atoch chi a'r gwasanaeth lle rydych chi'n gweithio yn ogystal â nodi meysydd i'w harchwilio ymhellach.
Bydd fy nghwestiynau'n canolbwyntio ar eich adroddiad tasg Ci.

**Ni fydd y drafodaeth** yn para **mwy na 15 munud**. Yn ystod y drafodaeth, byddaf yn defnyddio cwestiynau i egluro'r dystiolaeth rydych chi wedi'i darparu yng nhasg C(i) a bydd gennyf ddiddordeb hefyd yn sut rydych chi wedi ymgorffori eich gwybodaeth am arwain a rheoli lleoliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol o fewn eich tasgau asesu.

Byddaf yn defnyddio'r disgrifyddion graddio sydd wedi'u rhestru yn y pecyn asesu i asesu'r dystiolaeth a gyflwynwyd a'r drafodaeth broffesiynol. Cymerwch amser i ddarllen y Pecyn Asesu Canolfan C&G i baratoi am yr Asesiad Allanol gan fod hwn yn esbonio'r broses asesu'n llawn, yn ogystal ag esbonio'r disgrifyddion graddio.

**Go-to-Meeting (G2M)**
Bydd y drafodaeth yn digwydd gan ddefnyddio'r llwyfan ar-lein Go-to-Meeting. Yn nes at y dyddiad rydych chi wedi cytuno arno, byddwn ni'n darparu cyswllt i chi ei ddefnyddio. Wrth baratoi am y digwyddiad, rhaid i'r aseswr mewnol sicrhau bod TG sy'n gweithio ar gael i chi/y dysgwr. Gall ein partneriaid Fusion gynnig cymorth technegol wrth gyrchu'r cyswllt G2M, os oes angen, ond ni allant helpu â materion TG/cysylltiad rhyngrwyd a/neu faterion TG fel muriau gwarchod. Nodwch y rhif ffôn canlynol ar gyfer Fusion: **0808 196 3800**

**Dylai eich trafodaeth ddigwydd naill ai yn eich canolfan gymeradwy neu yn eich gweithle. Ni chaniateir i chi gynnal eich trafodaeth gartref na drwy ddefnyddio ffôn symudol. Os nad ydych yn gallu agor y cyswllt G2M neu os yw eich cysylltiad yn wael, bydd yn rhaid i ni aildrefnu eich asesiad.**

**Amseroedd a dyddiadau asesu:** Dewch i ni gadarnhau dyddiadau/amseroedd yr Asesiad Allanol a chyflwyno tystiolaeth i City & Guilds.

| | | **Manylion yr Asesiad Allanol** |
|---|---|---|
| Dyddiad | | Cyflwyniad a thrafodaeth |
| Amser | | |

**Aildrefnu neu ganslo digwyddiad:** I ganslo neu aildrefnu digwyddiad, dylai'r aseswr mewnol e-bostio Welshqualifications@cityandguilds.com

**Ailgyflwyno**: Os yw unrhyw agwedd ar eich asesiad allanol yn aflwyddiannus, bydd angen ailgyflwyno project a thestun newydd. Bydd hyn yn golygu cyflwyniad a thrafodaeth arall. Byddwn bob amser yn ceisio cynnig cyfle ailgyflwyno cyn gynted â phosibl, ond mae angen

digon o amser i astudio a pharatoi ymhellach.  Bydd City & Guilds yn rhoi gwybod i'ch aseswr mewnol os oes angen ailgyflwyno.

**Y camau nesaf:** Diolch yn fawr iawn am eich amser i ymuno â'r cyfarfod hwn heddiw. Byddaf nawr yn cofnodi'r wybodaeth y cytunwyd arni am ddigwyddiadau asesu ar y system QW Pro. Byddwch yn derbyn e-bost wedi'i gynhyrchu gan y system i gadarnhau'r dyddiadau a'r amseroedd asesu hyn.

Gall gymryd hyd at 2 ddiwrnod gwaith i'r rhain ymddangos yn eich golwg chi ar y system.
**Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch dyddiad neu amser yr asesiad, cysylltwch â mi. Ni allaf ateb unrhyw gwestiynau am y deunyddiau asesu a gyflwynwyd**